



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adolygiad annibynnol o gofrestru,
rheoleiddio ac arolygu gofal plant
ac addysg gynnar

Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar ganfyddiadau adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan yr Athro Karen Graham o Brifysgol Glyndŵr.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm y Blynyddoedd Cynnar

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

www.dysgu.cymru.gov.uk/adnoddau neu www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Cynnwys

Rhestr termau	2
Crynodeb gweithredol	4
1. Cyflwyniad	14
2. Addysg a gofal plentyndod cynnar	20
3. Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar	23
4. Rheoleiddio addysg a gofal plentyndod cynnar	31
5. Arolygu addysg a gofal plentyndod cynnar	38
6. Cydweithio	45
7. Y gweithlu	48
8. Asesiad	58
9. Rheoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed	61
10. Casgliadau	64
Atodiad 1: Crynodeb o'r argymhellion	72
Atodiad 2: Crynodeb o argymhellion yn nhrefn y dyddiad gweithredu a argymhellir	78
Atodiad 3: Dull fesul cam o gyflawni canlyniadau a argymhellir	84
Atodiad 4: Aelodau'r gweithgor	86
Atodiad 5: Rhestr o ymgynghoriadau	92
Nodiadau	94

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am reoleiddio ac arolygu gofal a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.
Addysg	Unrhyw brofiad (dan arweiniad neu hunanaddysgol) sy'n cael effaith ffurfiannol ar y ffordd y mae unigolyn yn meddwl, yn teimlo, neu'n gweithredu.
Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (AGPC)	'Addysg a Gofal Plentynod Cynnar' yw'r term a ddefnyddir ar lefel Ewropeaidd i ddisgrifio gwasanaethau sydd yn fras yn cyfuno addysg a gofal mewn un profiad di-dor i blant ifanc a'u teuluoedd. Yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn, mae gwasanaethau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn cynnwys lleoliadau gofal plant fel meithrinfeydd dydd, gwarchodwyr plant cofrestredig, clybiau y tu allan i oriau ysgol (brecwast, ar ôl ysgol a gwyliau), grwpiau chwarae cyn ysgol, Cylchoedd Meithrin, ynghyd ag ysgolion sy'n darparu addysg yn y Cyfnod Sylfaen.
Cofrestru	Mae'r broses o gofrestru gwasanaethau yn canolbwyntio ar gydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Bydd y broses gofrestru'n cynnig trwydded i weithredu yn unol â'r lefelau gofynnol o gydymffurfiaeth mewn lleoliad penodol
Cyfnod Sylfaen	Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol i blant rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir.
CCUHP	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
Dechrau'n Deg	Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a anelir at deuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru
Dysgu a Datblygu	Yn y blynyddoedd cynnar, mae dysgu a datblygu'n mynd law yn llaw gan gwmpasu datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant a datblygiad yr ymennydd. Mae'n cwmpasu addysg (gweler uchod) ond fe'i defnyddir yn y ddogfen hon i gwmpasu ystyr ehangach o ran yr hyn sydd ei angen ar blant i sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
Estyn	Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
Gofal Plant	Darpariaeth yw gofal plant lle y caiff anghenion y plentyn (gofal, chwarae ac addysg) eu dirprwyo i drydydd parti a'u derbyn ganddo yn absenoldeb rhiant
Rheoleiddio	Bydd angen i unrhyw wasanaeth trwyddedig gyrraedd safonau rheoliadol cenedlaethol sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth. Gall yr awdurdod rheoleiddio, yr Arolygiaeth, orfodi'r safonau'n gyfreithiol.
Sector a Gynhelir	Mae'r sector a gynhelir yn cynnwys darpariaeth mewn ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a ariennir yn gyhoeddus.
Sector Nas Cynhelir	Mae'r sector nas cynhelir yn cynnwys ystod amrywiol o ddarpariaeth a reoleiddir gan gynnwys gwarchod plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol, meithrinfeydd, chwarae mynediad agored, clybiau ar ôl ysgol, a darpariaeth heb ei rheoleiddio e.e. chwarae mynediad agored i blant dros 8 oed ac unrhyw ddarpariaeth am lai na dwy awr. Bydd rhai yn cynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen a ariennir.

Safonau Gofynnol
Cenedlaethol

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir sy'n gymwys i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant dan wyth oed y mae angen iddynt gofrestru yn unol â darpariaethau Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'i reoliadau cysylltiedig.

Crynodeb gweithredol

Nod Llywodraeth Cymru yw 'sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd'¹. Rhennir yr uchelgais hon i blant yng Nghymru ar draws y sector addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar a chan aelodaeth y gweithgor hwn.

Rhennir y sector yn dybiannol yn sectorau a gynhelir a nas cynhelir. Mae'r sector a gynhelir yn ymwneud â darpariaeth mewn ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a ariennir yn gyhoeddus. Mae'r sector nas cynhelir yn cynnwys darpariaeth a reoleiddir gan gynnwys gwarchod plant, gofal dydd llawn, gofal sesiynol, meithrinfeydd, chwarae mynediad agored, clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth heb ei rheoleiddio e.e. chwarae mynediad agored i blant dros 8 oed ac unrhyw ddarpariaeth am lai na dwy awr.

Mae'r prosesau arolygu a rheoleiddio yn ymwneud â darpariaeth am fwy na dwy awr i blant dan 8 oed yn unig.

Polisi Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

Cydnabyddwn fod polisi plant y blynyddoedd cynnar yn ymwneud â nid yn unig darparu dysgu, datblygiad a gofal i blant ifanc ond ei fod hefyd yn gysylltiedig â materion cyflogaeth i ferched a chyfle cyfartal; datblygiad plant; materion tlodi plant a theuluoedd; datblygiad y Gymraeg i blant a throsglwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ehangach; cyflenwad y farchnad lafur; iechyd; lles cymdeithasol; ac, yn ddiweddarach, addysg.

Ymhlith y meysydd polisi allweddol sy'n ceisio cyflawni'r uchelgais hon mae Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Er bod y polisiâu hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth ryngwladol orau o'r hyn sy'n gweithio ac yn cynnig y dechrau gorau posibl i blant, ² cydnabyddwn na chaiff gwasanaethau ymyrraeth gynnar, gwasanaethau cyffredinol na gwasanaethau arbenigol eu darparu ar wahân. Mae ymchwil ryngwladol bellach yn rhoi glasbrint i ni o'r math o strwythurau sy'n arwain at y deilliannau gorau i blant yn seiliedig ar ymagwedd addysgol

holistaidd at y blynyddoedd cynnar a gefnogir gan strwythurau integredig ar bob lefel, egwyddorion cydweithio a threfniadau gweithio mewn partneriaeth â rhieni.

Yr her bresennol yw cydnabod ac adeiladu ar werth dull gweithredu system gyfan (polisi, gweithlu a rheoleiddio) a'r dasg o ddwyn ynghyd gryfder polisi ac arfer gorau o bob rhan o'r sector plant er mwyn cynnig darpariaeth gyson, sy'n seiliedig ar anghenion ar gyfer plant yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn wedi rhoi'r cyfle i ystyried y strwythurau sy'n bodoli eisoes mewn ffordd radical er mwyn penderfynu a ydynt yn addas i gefnogi gofal ac addysg o ansawdd uchel i blant yn y blynyddoedd cynnar yn effeithlon ac effeithiol. Datblygwyd ein hargymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth ryngwladol gynyddol o'r hyn sy'n cefnogi datblygiad plant orau, ond yng nghyd-destun ymarferol adnoddau prin a phwysau cyllidebol. Serch hynny, credwn hefyd, o ystyried eu pwysigrwydd o ran bodloni cynifer o amcanion polisi Llywodraeth Cymru, y byddai Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn elwa ar fwy o adnoddau byrdymor er mwyn sicrhau newid systematig syml.

Fframwaith Ansawdd Sengl

Yng Nghymru, mae'r ddarpariaeth yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir wedi datblygu dros amser, gan adeiladu ar systemau a safonau mewn ymgais i addasu i batrymau cymdeithasol sy'n newid o ran anghenion gofal plant a'r gallu i gael mynediad i systemau addysg gynnar. Mae'r broses o 'adeiladu ar' systemau presennol wedi creu system ddeuol gyda phob arolygiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar naill ai addysg neu ofal. Bu'r ymgais i bontio'r bwch rhwng y ddwy arolygiaeth, er mwyn creu ymagwedd holistaidd at ddarpariaeth a gaiff ei gwella drwy arolygu, yn ofer am fod pob arolygiaeth wedi cael ei chyfyngu gan reoliadau; paramedrau eu rolau a'u cyfrifoldebau

Yn sgil hyn, crëwyd system sy'n dod yn fwyfwy anhydrin, a lle mae anghenion y plant sydd fwyaf agored i niwed, y rheini sy'n byw mew tlodi a phlant eraill sy'n wynebu anfantais, yn cael eu diwallu o leiaf. Ar yr un pryd, cawn fudd o weithlu ymroddedig ac ymrwymedig ac awydd agored i gynnig mwy i'r plant a'r teuluoedd sy'n mynychu'r ddarpariaeth yng Nghymru.

Daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod datblygu Fframwaith Ansawdd Sengl yn sylfaen hollbwysig ar gyfer creu strwythurau effeithiol ac effeithlon. Mae Fframwaith Ansawdd Sengl yn defnyddio profiad amlwg y ddwy arolygiaeth ac mae ganddo'r potensial i uno'r sector drwy sicrhau bod pob darparwr, ble bynnag y bo'n gweithredu, yn ymrwymo i ddiwallu anghenion holistaidd y plentyn. Byddai'r Fframwaith Ansawdd Sengl, pe câi ei eirio a'i gynllunio'n ofalus, yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth mewn lleoliadau ac ar draws sectorau tra'n cynnig yr un safonau darparu i bob plentyn a theulu. Byddai'n cyfuno ymrwymiad gweithlu ymroddedig ag ansawdd gwasanaeth di-dor er mwyn gwella safonau dyheadol, atgyfnerthu strategaeth y gweithlu a dwyn ynghyd amrywiaeth o fentrau sydd â'r nod o gynnig yr Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gorau i bob plentyn - o'r rheini y mae angen cefnogaeth cydadferol arnynt i'r rheini y mae angen eu hystyngiadau a'u herio.

Yn ogystal â gwella ansawdd yr holl ddarpariaeth, mae gan y Fframwaith Ansawdd Sengl y potensial i gychwyn adeg cenhedlu a pharhau drwy'r Cyfnod Sylfaen a thu hwnt. Mae ganddo'r potensial i ddod ag arbenigedd ynghyd gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau er mwyn gynnig cymorth o adeg cenhedlu ymlaen. Mae'n rhoi'r cyfle i atgyfnerthu gwasanaethau amlasiantaeth ac integredig a chynnwys darparwyr yn effeithiol ac effeithlon mewn strategaethau ymyrryd yn gynnar. O dair blynedd ymlaen, gallai plant a theuluoedd gael budd o ymyrraeth gynnar a darpariaeth arbenigol yn ogystal â darpariaeth gyffredinol wedi'i hatgyfnerthu fel yr hyn a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen.

Gan gydnabod nad yw'r cyfrwng arolygu cyfnodol ar ei ben ei hun yn debygol o arwain at newid systematig, nod y Fframwaith Ansawdd Sengl yw cynnig strwythur cenedlaethol. Gan adeiladu ar gryfderau presennol a dwyn arfer gorau ynghyd, mae'r Fframwaith Ansawdd Sengl yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu safonau meincnodi cenedlaethol wedi'u hategu gan gysondeb a safon, gan gynnwys arolygu a thu hwnt i hynny.

Mae'r system bresennol ar gyfer arolygu gwasanaethau a ddarperir i blant o'r un oedran yn gymhleth ac amrywiol. Mae cymhlethdod y system o bosibl yn amharu

ar ddatblygiad dull gweithredu holistaidd o ddiwallu anghenion datblygiadol plant. I'r darparwyr hynny (nas cynhelir) sy'n destun cyfundrefnau arolygu deuol, caiff rhai agweddau ar y ddarpariaeth eu harolygu unwaith (addysg) ond caiff agweddau eraill (gofal) eu harolygu sawl gwaith yn yr un cyfnod. Ar yr un pryd, nid oes angen i ddarpariaeth sy'n gweithredu am ddwy awr neu lai gofrestru, ni chaiff ei harolygu ac nid oes unrhyw drefn ddiogelu o gwbl. Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Ansawdd Sengl yn cynnig y cyfle i safoni disgwyliadau o ran yr holl ddarpariaeth tra'n lleihau'r baich arolygu, a thrwy hynny sicrhau defnydd gwell o'r adnoddau arbenigol prin sydd ar gael drwy osgoi dyblygu gwaith arolygu a thrwy ddefnyddio strategaeth sy'n seiliedig ar risg at amllder gwaith arolygu a'r math o arolygu a wneir - model sy'n cyfeirio adnoddau i'r manau lle mae eu hangen fwyaf a lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf ar blant a theuluoedd yng Nghymru.

Rheoleiddio ac Arolygu

Mae'r system reoleiddio ac arolygu bresennol yn seiliedig ar hen dybiaeth nad yw plant ifanc mewn ysgolion yn derbyn gofal ac nad yw'r un plant mewn gofal dydd yn dysgu. Mae gennym bellach ddealltwriaeth fwy cyfannol o ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar a chydabyddwn fod y ddarpariaeth gryfaf yn diwallu anghenion plant yn y modd ehangaf. Nid yn unig y mae'r system arolygu ranedig yn annhebygol o gefnogi deilliannau sy'n rhoi'r cychwyn gorau i blant mewn bywyd, ond mae'n rhy gymhleth i rieni, darparwyr a'r rheini sy'n cefnogi'r sector ei deall mewn modd dibynadwy. Mae cryn dipyn o ddyblygu ymdrech ac adnoddau rhwng y rheoleiddiwr a'r arolygydd (AGGCC ac Estyn) ac ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol.

Felly, argymhellwn y dylid dileu'r gwahaniaeth artiffisial mewn deddfwriaeth rhwng 'gofal' ac 'addysg' yng nghyd-destun y blynyddoedd cynnar ac y dylai gwasanaethau uno i ddarparu un profiad di-dor (diogelwch, gofal ac addysg) i blant ifanc a'u teuluoedd. At hynny, argymhellwn y dylid cyflwyno un set o Reoliadau a Safonau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar o 2016 ymlaen i gymryd lle'r rheoliadau o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r elfennau hynny o'r Canllawiau ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Lleoliadau Nas

Cynhelir (Deddf Addysg 2005) sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant saith oed ac iau, ar y cyd â set glir o ganllawiau ac y dylid cyflwyno Fframwaith Ansawdd Sengl newydd.

Ar hyn o bryd rhennir y broses o arolygu gwasanaethau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (AGPC) rhwng swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r gyfundrefn ranedig hon yn sefyllfa sydd wedi datblygu am resymau hanesyddol sy'n gyson â datblygu 'gofal' ac 'addysg' ar wahân ac, oherwydd bod darparwyr yn aml yn gweithio tuag at arolygiadau, mae'n cynnal y rhaniad hwn.

Mae fframwaith rheoleiddio integredig a grëir drwy fabwysiadu Fframwaith Ansawdd Sengl yn galw am reoleiddiwr ac arolygydd integredig sy'n cynnig manteision arbenigedd cyfunol Estyn ac AGGCC. Nid yw diwylliannau amrywiol y ddwy arolygiaeth bresennol (Estyn ac AGGCC) yn gweddu i ddull holistaidd sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sydd ei angen i gefnogi dysgu a datblygiad plant, a'r hanfodion economaidd sy'n diogelu cenedlaethau heddiw ac yfory.

Argymhellwn - fel y rhagwelwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002³ - y dylid cyflwyno dull unedig o arolygu yn lle cyfrifoldebau deuol Estyn ac AGGCC ym maes y blynyddoedd cynnar o 2016 ymlaen. Er y gall fod costau cychwynnol wrth sefydlu system arolygu unedig, byddai'r costau gweithredol yn y tymor hwy yn dod o gyllidebau presennol gan leihau dyblygu ac felly costau.

Cydweithio

Ceir tystiolaeth ryngwladol gref bod plant a theuluoedd yn cael y budd mwyaf mewn gwledydd lle mae'r elfennau gofal ac addysg plant yn y blynyddoedd cynnar wedi'u huno. Ar hyn o bryd yng Nghymru, rhennir y cyfrifoldeb am addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ar hyd llinellau traddodiadol gydag un Gweinidog yn gyfrifol am yr elfen addysg ac un arall am ofal. Er mwyn i bolisi AGPC fod yn effeithiol, dengys tystiolaeth fod yn rhaid i'r broses o lunio polisi hefyd gael ei chydgyssylltu o fewn y Llywodraeth, ac er y dywedir bod hyn yn cael

ei reoli ar lefel adrannol ar hyn o bryd ac yn amlwg, mai mater i'r Prif Weinidog yw penderfynu ar faterion Gweinidogol, er mwyn i bolisi fod yn effeithiol argymhellwn y dylai fod cyfrifoldeb gweinidogol unigol am AGPC. Argymhellwn hefyd y dylai cyfrifoldeb am AGPC gael ei uno ar lefel leol drwy sefydlu Byrddau AGPC rhanbarthol ar hyd yr un llinellau daearyddol â chonsortia addysg. Byddai hyn yn cydbwysu penderfyniadau lleol â'r angen i wella cysondeb o ran ansawdd a mynediad at wasanaethau ledled Cymru tra'n cynnig cyfleoedd i feithrin arbenigedd a rhannu arfer orau drwy fodel darparu cost-effeithiol.

Ansawdd

Bydd arolygiadau unedig a newidiadau i reoliadau strwythurol yn arwain at wella ansawdd, ond dim ond os oes mesurau ategol fel diffiniadau cyson o ansawdd, cynlluniau sicrhau ansawdd a datblygiad proffesiynol parhaus ar waith. Awgryma tystiolaeth na fydd arolygu yn unig yn ddigon i wella ansawdd darpariaeth AGPC, yn enwedig i'r plant ieuengaf.

Ar hyn o bryd, gan ddibynnu ar y sector neu'r ardal, mae gwasanaethau AGPC yn cael negeseuon gwahanol gan reoleiddwyr ac arolygwyr, yn cael lefelau amrywiol o gymorth ac yn gweithio o fewn fframweithiau ansawdd gwahanol. Dywedir bod y sefyllfa hon yn achosi dryswch a diffyg ymddiriedaeth ac yn cyfyngu ar allu darparwyr AGPC i bennu nodau a gydnabyddir yn ddibynadwy gan yr amrywiaeth o randdeiliaid sy'n gysylltiedig fel camau tuag at wella ansawdd.

Argymhellwn y dylid datblygu Fframwaith Ansawdd Sengl newydd ar gyfer AGPC sy'n cynnig canllawiau clir, cryno, wedi'u cymedroli a'u safoni i wasanaethau AGPC yn unol â'r gyfundrefn reoleiddio ac arolygu newydd erbyn 2016. Rhaid i'r Fframwaith Ansawdd Sengl gydnabod pwysigrwydd y newidynnau y dangoswyd gan ymchwil eu bod yn creu AGPC o ansawdd uchel sy'n caniatáu ar gyfer darpariaeth amrywiol a chymunedau amrywiol a wasanaethir gan y ddarpariaeth ledled Cymru.

Gweithlu

Yng Nghymru, nid oes unrhyw ofyniad cyson o ran cymwysterau ar gyfer y gweithlu AGPC ac mae hynny hefyd yn gwahaniaethu'n ddi-fudd rhwng yr elfennau gofal ac addysg mewn gwasanaethau plant yn y blynyddoedd cynnar. Ategir hyn gan y fframweithiau rheoleiddio ac arolygu ar wahân a chan draddodiadau proffesiynol hirsefydledig a warchodir yn ofalus.

Er hynny, ceir tystiolaeth gyson o effaith gadarnhaol ymarferwyr lefel uwch sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ar blant ar draws gwasanaethau AGPC. Y lleoliadau hynny sydd â staff â chymwysterau lefel uwch, ac yn enwedig y rheini a arweinir gan athrawon cymwysedig, sydd â'r deilliannau ansawdd uchaf, gyda phlant yn gwneud y cynnydd datblygiadol mwyaf.

Rydym yn wynebu risg o fod ar ei hôl hi yn y maes hwn yng Nghymru drwy wneud y canlynol; peidio â gofyn am gymwysterau lefel uwch mewn lleoliadau nas cynhelir; derbyn gofynion isel o ran cymwysterau gofynnol i ymarferwyr yn y sector nas cynhelir; caniatáu amwysedd ac anghysondeb o ran cymwysterau gofynnol cynorthwywyr addysgu a dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion a lefel y profiad a'r arbenigedd a ddisgwylir gan athrawon sy'n arwain y Cyfnod Sylfaen. Pa le bynnag y caiff gwasanaethau plant yn y blynyddoedd cynnar eu darparu, dylent gael eu cefnogi gan weithlu uchelgeisiol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau sy'n briodol i oedran yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant.

Argymhellwn felly y dylem anelu at weithlu AGPC cwbl gymwysedig a arweinir gan raddedigion yng Nghymru, heb droi at y model graddedigion anarbenigol a fabwysiadwyd yn Lloegr, ond un sydd wedi'i hyfforddi ac sydd â phrofiad o weithio gyda phlant iau. Bydd hyn yn cymryd amser, a bydd angen dull gweithredu graddol, gan adeiladu ar gryfderau'r sylfeini presennol a ddarparwyd gan Gyngor Gofal Cymru.

Yn gyntaf, argymhellwn y dylid datblygu strategaeth gweithlu glir a chydlynol i bob ymarferydd ym maes plentynod cynnar erbyn 2015. Yn ail, dylid diwygio rheoliadau a'i gwneud yn ofynnol i ymarferwyr sy'n arweinwyr feddu ar

gymwysterau lefel 5 priodol sy'n asesu cymhwysedd (megis llwybr Ymarfer Uwch Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant) ym mhob lleoliad cofrestredig newydd o 2018 ymlaen, a phob lleoliad o 2020 ymlaen. Dylai fod gofyniad ychwanegol i reolwyr lleoliadau mwy o faint (20 o blant neu fwy) feddu ar gymhwyster rheoli lefel 5 priodol (megis llwybr Rheoli Lefel 5 Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant) o 2020 ymlaen (gan ddisgwyl i lwybr cymhwysedd Lefel 6 ar gyfer arweinyddiaeth graddedigion gael ei ddatblygu a dod yn uchelgais i reolwyr lleoliadau erbyn 2024. Yn drydydd, erbyn 2022, dylai po ymarferydd AGPC a gaiff ei gynnwys mewn cymarebau a reoleiddir, feddu ar gymhwyster priodol ar lefel 3 neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster dysgu seiliedig ar waith lefel 3 i'w gyflawni o fewn tair blynedd. (Dylai hyn gynnwys gwarchodwyr plant. a dylid caniatáu tair blynedd o ddyddiad eu cofrestriad cychwynol iddynt gyflawni hyn). Dylai ymarferwyr AGPC a gaiff eu cynnwys mewn cymarebau i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir) neu wasanaethau Dechrau'n Deg gwblhau o leiaf bum diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn. Yn olaf, argymhellwn y dylid cyflwyno llwybr arbenigol plentyndod cynnar newydd at Statws Athro Cymwysedig sy'n arbenigo mewn datblygiad plant o adeg eu geni hyd at saith oed a'r Cyfnod Sylfaen o 2017 ymlaen.

Asesu

Nid oes dull cyson o asesu datblygiad plant ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwain at golli cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar, anawsterau pan fydd plant yn trosglwyddo o un sefydliad i un arall, dryswch pan fydd gweithwyr gwahanol yn ymwneud â phlentyn, a diffyg cyfleoedd i gasglu data i lywio polisi. Felly, croesawn y gwaith o ddatblygu Adnodd Asesu 'Gwnaed yng Nghymru' ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel y'i nodir yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. Fodd bynnag, teimlwn y dylai'r cynigion wneud mwy i sicrhau bod adnodd am ddim cynhwysfawr, parhaus a chyffredin (sy'n berthnasol ar draws galwedigaethau, lleoliadau, asiantaethau a sectorau) yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar i blant rhwng 0-7 oed.

Rheoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed

Gofynnwyd i'r grŵp ystyried a ddylid gwneud unrhyw newid i'r broses o reoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed. O safbwynt hawliau plant, mae'n anodd iawn cyfiawnhau'r sefyllfa fympwyol - ond pragmatig - lle nad yw'n ofynnol i rai gwasanaethau gofrestru neu gael eu harolygu, yn enwedig pan fydd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai'r rheini sydd leiaf tebygol o allu fforddio talu am ddarpariaeth gofrestredig yw'r rhai sy'n defnyddio'r lleoliadau hyn. Mae plant yn y lleoliadau hyn yn haeddu gwasanaeth o'r un ansawdd ac mae gan deuluoedd sy'n defnyddio'r darpariaethau hyn yr hawl i gael dull cymesur o reoli ansawdd a sicrwydd mewn perthynas â diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

Un o oblygiadau'r sefyllfa bresennol yw nad yw rhieni sy'n defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru'n gallu hawlio Elfen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith, nac yn gallu hawlio gostyngiadau treth drwy gynllun Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr. Fodd bynnag, yng nghyd-destun rhoi lles a buddiannau'r plentyn yn gyntaf, mae'n amlwg yn anghywir i ddefnyddio arian cyhoeddus i gefnogi lleoliadau lle nad oes gan awdurdodau cyhoeddus unrhyw fesur ystyriol o ddiogelwch y ddarpariaeth honno. Mae'n debygol y caiff hyn yr effaith andwyol fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi, ac a all wynebu anfantais bellach wrth ddefnyddio gofal plant heb ei reoleiddio

Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i bob lleoliad gofrestru â'r Arolygiaeth AGPC newydd ac y dylent fodloni gofynion cymesur o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu.

Argymhellion

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod dull amrywiol ac annheg o arolygu yn fwy seiliedig ar ddatblygiad hanesyddol systemau, yn seiliedig ar arolygu math o leoliad yn hytrach nag anghenion plant, gan arwain at system arolygu sy'n afresymol o gymhleth ac yn aml yn anghyson. Mae'r system hon wedi dod yn fwy cymhleth gydag anghenion cymdeithasol sy'n newid, plant iau yn dechrau

cael addysg yn yr ysgol, a darpariaeth a ariennir yn gyhoeddus yn cael ei chynnig yn y sector nas cynhelir.

Mae argymhellion yr adroddiad (a restrir yn Atodiad 1 yn eu trefn rifol ac Atodiad 2 yn ôl y dyddiad gweithredu a argymhellwyd) yn gyson ag egwyddorion y Gweithgor ac athroniaeth sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac yn canolbwyntio ar y plentyn. O ganlyniad, argymhellir y dylid symleiddio'r systemau presennol drwy sicrhau mwy o gydweithredu, cydweithio ac integreiddio. Nodir y ffactorau ysgogi allweddol hyn fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi dulliau gweithredu, hyrwyddo ansawdd ac arwain at system fwy cydlynol, effeithiol, effeithlon a safonedig sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn yn well.

Mae'r Fframwaith Ansawdd Sengl a argymhellir yn greiddiol i ddatblygu systemau ac adnoddau a fydd yn galluogi darparwyr i hunanasesu a meincnodi safonau mewn ffordd ddibynadwy, gan alluogi'r broses arolygu i safoni prosesau a deilliannau yn erbyn meincnodau tryloyw ac wedi'u cymedroli. Byddai'r system a argymhellir yn rhoi eglurder i bob rhanddeiliad am statws cofrestru'r ddarpariaeth ac yn gwella tryloywder a dewis.

Model tri cham yw'r model gwella (gweler tudalen 70) sy'n seiliedig ar sylfeini Fframwaith Ansawdd Sengl y cytunwyd arno gan bob rhanddeiliad ac a ddeallir ganddynt, ac y caiff ei ddatblygu yng Ngham 1. Mae Cam 2 yn cynnwys datblygu a gweithredu dull unedig o arolygu gyda systemau arolygu safonedig yn seiliedig ar gydweithio ac integreiddio. Y cam terfynol, sef Cam 3, yw datblygu a sefydlu system reoleiddio ac arolygu unedig arbenigol, a lle y bo angen, cwbl ar wahân.

1. Cyflwyniad

Diben a Methodoleg

1.1 Ym mis Hydref 2013, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Gweinidogion er mwyn cynnal adolygiad a gwerthusiad i benderfynu a yw'r systemau presennol ar gyfer cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg a darparwyr addysg yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi ac yn gwella ansawdd addysg a gofal plant yn ddigonol ar draws y sector.

1.2 Y bwriad oedd i'r Grŵp gynnwys hyd at 12 aelod (Atodiad 1) a benodwyd ar sail eu gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd perthnasol. Cadeiriwyd y grŵp gan yr Athro Karen Graham o Brifysgol Glyndŵr ac roedd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- AWARE (Awdurdodau Lleol)
- Cyngor Gofal Cymru
- Plant yng Nghymru
- Dechrau'n Deg
- Mudiad Meithrin
- Ieuenctid Cymru
- Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru
- Prifysgol Bangor
- PACEY Cymru
- Clybiau Plant Cymru
- Cynghorwyr ym maes y Cyfnod Sylfaen
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Cynrychiolwyr o'r sector a gynhelir

1.3 Estynnwyd gwahoddiad hefyd i arsylwyr o nifer o gyrff perthnasol eraill fynychu nifer gyfyngedig o gyfarfodydd agored o'r Grŵp. Roedd y rhain yn cynnwys:

- AGGCC
- Timau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru
- Estyn

1.4 Diben yr Adolygiad oedd:

- profi a yw'r systemau presennol ac arfaethedig ar gyfer cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg a darpariaeth addysg yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi ac yn gwella ansawdd gofal plant ac addysg yn ddigonol ar draws y sector blynyddoedd cynnar;
- ystyried a oes angen diwygio'r systemau presennol ar gyfer cofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant yng ngoleuni newidiadau Diwygio Lles, ymgynghoriad CThEM ar ofal plant di-dreth, a pholisïau perthnasol eraill yn y DU sy'n effeithio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar;
- sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar gofrestru, rheoleiddio ac arolygu yn cefnogi'r nodau a'r deilliannau a fwriedir, ac a nodir yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*;
- Nodi, lle y bo angen, argymhellion ar gyfer gwella a/neu newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a/neu ddeddfwriaeth.

1.5 Y prif dasgau oedd:

- adolygu'r systemau presennol ar gyfer cofrestru darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant;
- adolygu'r systemau presennol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu darpariaeth addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Dechrau'n Deg, gan ganolbwyntio ar ansawdd y profiad, arweinyddiaeth, y gweithlu a'r amgylchedd (y tu hwnt i iechyd a diogelwch);
- adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Cofrestredig;
- ystyried sut i leihau baich cofrestru, rheoleiddio a, lle y bo'n briodol, arolygu;
- ysgogi gwelliannau mewn ansawdd er budd plant, rhieini / gofalwyr a'r gweithlu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar;

- adolygu'r system bresennol ar gyfer arolygu safonau addysgol a'r ddarpariaeth i blant 3-4 oed o fewn lleoliadau addysg y blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen, yn ogystal â'r modd y caiff y ddarpariaeth honno ei harwain a'i rheoli;
- sicrhau bod hyn yn cysylltu â'r gwaith tuag at system fwy cydlynol o asesu plant yn y blynyddoedd cynnar, a fydd yn galluogi dull cenedlaethol cyson o asesu, monitro a thracio datblygiad a chynnydd plentyn drwy'r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â Fframwaith Deilliannau ar gyfer y grŵp oedran hwn, a'r elfennau allweddol eraill a nodir yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*.

- 1.6 Roedd yn ofynnol i'r grŵp gorchwyl a gorffen gyflwyno adroddiad interim drafft ar yr adolygiad ddiwedd mis Ionawr 2014 yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion cychwynnol cyn i'r drafft terfynol o'r adroddiad gael ei gyflwyno erbyn Gwanwyn 2014 i Lywodraeth Cymru.
- 1.7 Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen llawn ar chwe achlysur i drafod materion, cael adborth o ymgynghoriadau allanol, archwilio drafftiau a datblygu argymhellion. Cyfarfu is-grŵp llai ar nifer o achlysuron eraill i ddrafftio adroddiadau. Cyflawnwyd tasgau interim gan aelodau o'r gweithgor a chynhaliwyd ymgynghoriadau ag ystod eang o randdeiliaid rhwng mis Hydref 2013 a mis Ionawr 2014. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys ymgynghori o fewn sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol y Gweithgor, ymgynghori ag aelodau o grwpiau rhanddeiliaid eraill ledled Cymru, digwyddiadau ymgynghori yn y gogledd, y canolbarth a'r de, ymgynghoriadau unigol a digwyddiadau ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid penodol fel athrawon ymgynghorol a'r rheini sy'n gweithio gydag Estyn. Mae'n bwysig nodi i'r ymgynghoriadau gynnwys ystod eang o randdeiliaid yn cynrychioli'r sector a gynhelir gyda chyfraniadau gan y rheini sy'n gweithio mewn meithrinfeydd yn unig, y rheini sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cynradd, athrawon ymgynghorol ac arolygwyr. Yn y sector nas cynhelir cynhaliwyd ymgynghoriadau â chynrychiolwyr y sefydliadau hynny sy'n cynnig darpariaeth chwarae, gwasanaethau gwarchod plant, gofal plant grŵp, gofal dydd a darpariaeth

gofleidiol, boed yn sefydliadau cofrestredig neu'n rhai sydd heb eu cofrestru o ddewis neu am nad yw'r rheoliadau'n caniatáu iddynt wneud hynny.

- 1.8 Ceir rhestr lawn o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad 5.
- 1.9 Cred y Grŵp y bydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn yn sicrhau'r budd mwyaf i bob plentyn ac yn cynnig cyfleoedd cydadferol cadarn i'r plant hynny sy'n byw mewn tloedi a'r rhai sydd eisoes yn wynebu anfantais. Nid ar chwarae bach y daethpwyd i'r casgliadau, roedd y dadleuon yn heriol ac yn gadarn a bu'n rhaid i unigolion roi buddiannau personol a sefydliadol o'r neilltu er mwyn blaenoriaethu anghenion plant.
- 1.10 Hoffai'r gweithgor bwysleisio unfrydedd yr holl aelodau o ran y cynigion a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn⁴.

Cysylltiadau â gwaith arall

- 1.11 Mae'r adolygiad hwn yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sef *'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'*⁵ ac yn cyd-fynd â nifer o ddarnau eraill o waith sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun Gofal Plant, gan gynnwys:

- Pwyso a Mesur y Cyfnod Sylfaen
- Y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Cyfnod Sylfaen
- Datblygu'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd (AGGCC)
- Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg
- Datblygu Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar
- Adolygu rolau a chymwysterau staff cymorth mewn ysgolion

- 1.12 Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi gwneud cysylltiadau â'r meysydd gwaith hyn. Mae'n debygol y bydd yr ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu tuag at wasanaethau addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar a amlinellir yn y ddogfen hon yn gyson â gwaith arall sy'n mynd rhagddo i gefnogi *'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'*.

Yn wir, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn gwella systemau ar gyfer trefniadau gweithio amlasiantaeth ac integredig.

Egwyddorion

1.13 Mae'r gweithgor wedi nodi ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel man cychwyn. Mae ein holl drafodaethau wedi dechrau drwy ystyried beth sydd ei angen ar bob plentyn, gan gydnabod mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod pwysicaf o ran pennu cyfleoedd mewn bywyd, ac wedi cymhwysu'r egwyddorion canlynol;

- rhaid i bob strwythur a darpariaeth ateb y diben hwnnw;
- mae ymagwedd gyson, sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn, at ddysgu a datblygiad plant ar draws gwasanaethau plentyndod cynnar yn hanfodol (Erthygl 6, para 2), gan sicrhau iechyd, lles a diogelwch y plentyn (Erthygl 24);
- y byddai plant sy'n byw mewn tlodi neu sy'n wynebu anfantais fel arall yn cael cyfleoedd cydadferol cynnar i'w helpu i ddatblygu a dysgu;
- rhaid i bawb sy'n gweithio ym maes addysg a gofal plentyndod cynnar ddeall gwyddoniaeth datblygiad plentyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda er mwyn eu galluogi i ddarparu'n briodol ar gyfer anghenion pob plentyn ar bob cam, a sicrhau'r deilliannau gorau i bob plentyn;
- rhaid i bob gwasanaeth gael ei lywio a'i ddarparu mewn ffordd sy'n galluogi pob plentyn i gael y cyfle gorau posibl i gyflawni ei botensial yn llawn (Erthygl 29);
- y bobl bwysicaf ym mywyd plentyn yw ei deulu a'r rheini sy'n gofalu am blant. Rhaid i rieni a theuluoedd gael eu grymuso a'u hysbysu er mwyn eu galluogi i fod yn bartneriaid llawn wrth roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'w plentyn. (Erthygl 18);
- rhaid i addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar roi sylw dyledus i hawl y plentyn i'w iaith a'i ddiwylliant ei hun (Erthygl 30) ac i'n hymrwymiad cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru;

- dylai addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar barchu a gwerthfawrogi amrywiaeth a gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb (Erthygl 2)
- rôl llywodraeth yw rhoi'r polisiâu, y strwythurau a'r systemau cymorth ar waith i alluogi'r rheini sy'n darparu addysg a gofal plentyndod cynnar i gael yr effaith fwyaf bosibl ar bob plentyn.

1.14 Drwy'r Adolygiad hwn, rydym wedi defnyddio'r term 'Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar' (AGPC). Hwn yw'r term sy'n disgrifio orau'r athroniaeth a'r dyheadau y byddem yn eu hargymell. Fe'i defnyddir ar lefel Ewropeaidd i ddisgrifio gwasanaethau sydd yn fras yn cyfuno addysg a gofal mewn un profiad di-dor i blant ifanc a'u teuluoedd. Mae'n destun dogfen gyfathrebu gan y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011⁶, sy'n cynnig fframwaith polisi pwysig i holl wledydd yr UE.

1.15 Mae'r adolygiad hwn yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddorion, y dyheadau a'r targedau a geir mewn tair dogfen gan Lywodraeth Cymru, sef 'Iaith Fyw: Iaith Byw', (Strategaeth y Gymraeg 2012-2017), y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Ddyletswydd i Gydydffurfio â'r safonau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr egwyddorion, y dyheadau a'r targedau hyn yn gymwys i bob adran o'r Adolygiad hwn.

2. Addysg a gofal plentyndod cynnar

- 2.1 Fel grŵp, credwn fod Cymru mewn sefyllfa unigryw i gyflawni ein huchelgais ar gyfer blant. Rydym yn wlad fach lle mae gan benderfynwyr gydberthynas agos â darparwyr gwasanaethau a chyda phlant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau yn y pen draw.
- 2.2 Mae dechrau'r daith o gyflawni ein huchelgais wedi bod yn wych ac rydym yn destun edmygedd gan lawer o wledydd eraill. Mae'r ffaith ein bod wedi rhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cyfraith a phrosesau llunio polisi yng Nghymru yn enghraifft y dylem fod yn falch ohoni ac y dylai eraill ei dilyn. Mae hyn yn cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gwelir effaith ymarferol y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar hawliau mewn perthynas â phlant ifanc drwy raglenni Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnig cyfleoedd cydadferol i'r plant sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n byw mewn tlodi ac sy'n wynebu anfantais fel arall, ac i gynnig cyfleoedd o'r radd flaenaf i bob plentyn. Ceir tystiolaeth dda o'r ddau ddull gweithredu er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a theuluoedd. Mae angen i ni bellach groesawu'r heriau sydd eu hangen i sefydlu ac adeiladu ar y dulliau gweithredu hyn yn llawn, gan weithio tuag at sicrhau cysondeb ac integreiddio wrth ddarparu gwasanaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar fywydau plant yng Nghymru.

Heriau

- 2.3 Yng Nghymru, mae addysg a gofal plant yn draddodiadol wedi cael eu trin ar wahân mewn polisi ac ymarfer. Ystyrir bod addysg gynnar, fel ysgol gynradd, yn fudd cyhoeddus - yn hawl - tra bod gofal plant yn dueddol o gael ei drin fel gwasanaeth i rieni ei brynu. Dangosir y rhaniad cysyniadol hwn mewn sawl ffordd: drwy systemau gwahanol ar gyfer ariannu, rheoleiddio, canllawiau, tâl ac amodau, ac fel gwasanaeth a reoleiddir, mae gofal dydd yn dibynnu'n bennaf ar ffioedd uchel iawn gan rieni. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at

anhydraddoldebau o ran y gallu i gael mynediad at wasanaethau, a lefelau uchel o dlodi plant drwy annog teuluoedd i beidio â gweithio pan nad oes fawr ddim budd ariannol i wneud hynny ar ôl talu am ofal plant, a thrwy brisio llawer o deuluoedd allan o'r farchnad. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn bodoli mewn gwledydd eraill a cheir tystiolaeth glir i ddangos, lle y caiff addysg a gofal eu hintegreiddio, y ceir lefelau sylweddol is o dlodi plant ac anhydraddoldeb.⁷ Lle mae systemau ar wahân yn bodoli, fel yn y DU, maent yn cyd-fodoli gyda lefelau cymharol uchel o anhydraddoldeb, lefelau is o famau mewn gwaith⁸ a thlodi plant⁹.

- 2.4 Daw Dogfen Gyfathrebu y Comisiwn Ewropeaidd ar Addysg a Gofal Plentynod Cynnar i'r casgliad¹⁰ bod plant yn cael y budd mwyaf o hawl gyffredin i gael addysg a gofal plant llawn amser o ansawdd uchel, sy'n galluogi eu rhieni i'w cefnogi yn economaidd tra'n cynnig y cyfleoedd gorau iddynt ddatblygu. Fel nod hirdymor yng Nghymru, dylem geisio sicrhau bod AGPC o ansawdd uchel ar gael i bob plentyn cyn oed ysgol yn dilyn diwedd cyfnod absenoldeb rhiant Yn y byrdymor, yr her yw lleihau effeithiau andwyol system ranedig drwy sicrhau mwy o gydgysylltu, cydweithio ac integreiddio.
- 2.5 Mae buddsoddi mewn AGPC o ansawdd uchel o adeg geni yn hanfodol er mwyn sicrhau y cedwir at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, yng Nghymru, nid yw ansawdd AGPC bob amser mor gyson ag y mae gan ein plant a'u teuluoedd yr hawl i'w ddisgwyl. Mae'r anghysondeb hwn yn amlwg ar sawl lefel; o'r ffordd y caiff fframweithiau eu defnyddio i ddisgrifio ansawdd, sut y caiff darpariaeth ei threfnu a'i hariannu ar draws lleoliadau gwahanol, sut mae ymarferwyr yn cymhwyso, sut mae awdurdodau lleol yn cefnogi'r ddarpariaeth, sut y caiff lleoliadau eu rheoleiddio ac, yn y pen draw, sut mae llywodraeth wedi'i strwythuro i ymateb i'r heriau hyn. Mae anghysondebau o'r fath hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i rieni ystyried a chydbwyso'r opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn gwneud dewisiadau cadarnhaol am AGPC ar gyfer eu plant.
- 2.6 Mae strwythurau presennol yn cynnal y gwahaniaeth diwylliannol di-fudd hwn rhwng yr elfen ofal o waith gyda phlant ifanc a gweithgarwch a ystyrir yn 'gwbl

addysgol'. Er bod athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyfle i ddileu'r rhwystrau artiffisial sy'n bodoli rhwng gofal a dysgu, mae newid wedi bod yn anodd, ac wedi'i lesteirio gan ddehongliadau anghyson o'r Cyfnod Sylfaen mewn pob math o leoliad ac ar bob lefel. Mae gwerthusiad cynnar o'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hyn, a chanfu fod deilliannau'n well yn y lleoliadau hynny (a gynhelir a'r rhai nas cynhelir) lle mae athroniaeth y Cyfnod Sylfaen wedi'i gweithredu'n fwyaf effeithiol¹¹. Atgyfnerthir y sefyllfa hon gan system arolygu ddeuol sy'n adlewyrchu cyfundrefnau deuol a thrwy hynny yn atgyfnerthu systemau deuoliaeth artiffisial. Cyfyngir y ddwy arolygiaeth gan y fframweithiau deddfwriaeth a pholisi y mae'n rhaid iddynt weithredu'n unol â hwy a chydabyddir nad yw'r fframweithiau hyn yn hwyluso cydweithredu a chydweithio.

- 2.7 Gellir lliniaru effaith cyfundrefnau deuol gan y gwaith y mae Estyn ac AGGCC yn ei wneud ar hyn, o bryd yn ôl y sôn, i wella cydlyniaeth arolygiadau yn y sector nas cynhelir. Croesawn y dull gweithredu hwn a chredwn y dylid ei ymestyn er mwyn galluogi arbenigedd AGGCC i ddylanwadu ar y broses o arolygu darpariaeth i blant dan 7 oed yn y sector a gynhelir.
- 2.8 Hyd yma, cymerwyd camau penderfynol gan y Llywodraeth sy'n arwain at welliannau fesul cam i ofal plant ac addysg plentyndod cynnar, ond mae'r ddarpariaeth wedi bod yn dameidiog. Er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf, mae angen dull gweithredu mwy sylfaenol er mwyn lleihau anghysondeb, sicrhau mwy o integreiddio a chreu strwythurau effeithlon wedi'u symleiddio sy'n fwy effeithiol wrth wella'r safonau sy'n cefnogi dysgu a datblygiad plant orau.
- 2.9 Rydym yn ymwybodol iawn mai dim ond un cyfle sydd gan bob plentyn i gael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd ac, o gofio hyn, rydym wedi gwneud argymhellion radical ond ymarferol a chost-effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth glir o'r hyn sy'n effeithiol ar hyn syn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, eu teuluoedd a chymunedau.

3. Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar

Y Sefyllfa Bresennol

- 3.1 Yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei huchelgais i “*wella ansawdd addysg a gofal plant cynnar*” a chytuno ar y ffordd ymlaen “*erbyn mis Mehefin 2014*” (t. 34).
- 3.2 Yng Nghymru, nid oes unrhyw fframwaith ansawdd cyffredin y gall darparwyr Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ei ddilyn p'un a ydynt yn gweithio mewn ysgolion neu mewn darpariaeth nas cynhelir. Yn dibynnu ar y sector neu'r lleoliad, mae gwasanaethau AGPC yn derbyn lefelau gwahanol o gymorth ac yn dilyn fframweithiau ansawdd gwahanol. Rhennir y fframweithiau gwahanol hyn nid yn unig o ran addysg a gofal ond rhwng ffrydiau ariannu penodol ac awdurdodau lleol gwahanol.
- 3.3 Caiff ysgolion, a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen eu harwain gan Y Cyfnod Sylfaen - Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant (2008), wedi'i ategu gan amrywiaeth o ganllawiau thematig (fel y Canllawiau ar Broffil Datblygiad Plentyn, Addysgeg Dysgu ac Addysgu) ac amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff lleoliadau Cyfnod Sylfaen hefyd eu cefnogi gan Athrawon Ymgynghorol sy'n gyfrifol, yn gyffredinol, am ddarparu hyfforddiant mewn swydd, cefnogaeth i ymarferwyr, ynghyd â monitro safonau.
- 3.4 Mae lleoliadau a ariennir i ddarparu gwasanaethau AGPC Dechrau'n Deg wedi cael canllawiau gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi sail dystiolaeth ar gyfer gofal o ansawdd uchel a'r hyn a ddisgwylir gan ddarparwyr. Caiff lleoliadau Dechrau'n Deg hefyd eu cefnogi gan Gynghorydd Blynyddoedd Cynnar neu Athro Ymgynghorol sy'n gyfrifol am wella ansawdd lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a chefnogi staff Dechrau'n Deg yn eu hardal.
- 3.5 Yn y sector nas cynhelir, mae sefydliadau unigol sy'n cynrychioli darpariaeth AGPC (gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, clybiau y tu allan i oriau ysgol,

grwpiau chwarae cyn ysgol, Cylchoedd Meithrin), dros y blynyddoedd, wedi datblygu eu cynlluniau sicrhau ansawdd eu hunain gyda niferoedd amrywiol o leoliadau yn cymryd rhan ynddynt, wedi'u cefnogi gan eu sefydliadau sector cenedlaethol. Caiff lleoliadau AGPC nas cynhelir hefyd gymorth gan eu hawdurdod lleol o dan ei ddyletswyddau digonolrwydd gofal plant, ond mae faint o gymorth a roddir a graddau'r cymorth hwnnw'n amrywio'n fawr ledled Cymru.

- 3.6 Felly, mae darparwyr gwasanaethau'n derbyn lefelau gwahanol o gymorth, yn dilyn fframweithiau gwahanol ac yn ddarostyngedig i gyfundrefnau arolygu gwahanol fel sy'n ofynnol gan reoliadau a deddfwriaeth.

Tystiolaeth

- 3.7 Er bod tystiolaeth yn awgrymu y gall lleoliadau amrywio'n fawr o ran eu heffaith ar ddeilliannau plant - gyda rhai'n fwy effeithiol nag eraill o ran hyrwyddo deilliannau gwybyddol, cymdeithasol ac ymddygiadol cadarnhaol¹² - nid oes un ffordd berffaith o ddarparu AGPC o 'ansawdd uchel'.
- 3.8 Gellir ystyried ansawdd gwasanaethau AGPC yn nhermau newidynnau 'strwythurol' a 'phroses'¹³. Mae mesurau strwythurol yn ystyried rhag-amodau sefydlog addysg a gofal a allai effeithio ar ddeilliannau neu ddatblygiad, fel maint grwpiau, cymarebau plentyn-i-oedolyn, strwythur rheoli, cyflog, trosiant staff, cymwysterau, maint grwpiau a chyfarpar. Mae rhai o'r agweddau strwythuredig hyn yn gysylltiedig â deilliannau gwell i blant, ac maent yn ffyrdd cymharol syml o wella ansawdd y gellir eu cynnwys yn gymharol hawdd ym mholisïau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, awgryma ymchwil ryngwladol¹⁴ nad yw gwelliannau i ffactorau strwythurol ynddynt eu hunain o reidrwydd yn gwella ansawdd. Mae newidynnau proses, sy'n ymwneud â'r ffordd y mae plant yn rhyngweithio â gofal a'u profiad o ofal, hefyd yn cael effaith fawr ar ddatblygiad plant. Ymhlith enghreifftiau o ffactorau proses mewn lleoliadau AGPC y mae'r ffordd y caiff gweithgareddau eu trefnu, ansawdd sgysiau, yr amrywiaeth o ysgogiadau a brwdfrydedd ymarferwyr.

- 3.9 Felly, mae gofal o ansawdd uchel yn cynnwys cyfuniad o ffactorau proses a strwythurol, gan gynnwys elfennau fel athrawon ac ymarferwyr gyda chymwysterau uchel, dosbarthiadau / grwpiau bychain, cymarebau plentyn-i-oedolyn isel, deunyddiau ysgogol a heriol sy'n briodol i oedran, rhyngweithiadau cynnes, cynnwys datblygiadol, amgylcheddau ffisegol eang a gwych gydag ardal awyr agored, cyfleoedd am deithiau addysgol, staff profiadol sydd fwyaf addas i gynnal dysgu a darparu gweithgareddau chwarae o ansawdd, a datblygiad proffesiynol parhaus i weithwyr, ac y mae pob un o'r rhain yn deilwng o gyflogau uwch.
- 3.10 Gellir nodi newidynnau strwythurol gan ddefnyddio rheoliadau neu safonau, ond mae ffactorau proses yn anoddach i'w meintoli ac felly'n anoddach mynd i'r afael â hwy drwy bolisi cyhoeddus. At hynny, mae gwasanaethau AGPC yn gweithredu mewn amgylcheddau unigryw gyda ffactorau gwahanol yn effeithio ar eu perfformiad. Gallai un garfan gynnwys grwpiau wedi'u targedu'n benodol (fel Dechrau'n Deg) tra y gallai eraill fod yn agored i bawb. Mae lleoliadau hefyd yn gweithredu yng nghyd-destun daearyddiaeth, diwylliant ac iaith. Mae oedran plant a'r ffordd y cânt eu grwpio yn amrywio o le i le ac o ddydd i ddydd felly hefyd ddwyster a chyfnodau addysg a gofal. Mae gan ymarferwyr ac athrawon lefelau gwahanol o brofiad, hyfforddiant a chymwysterau ac mae darparwyr yn gweithredu gyda lefelau gwahanol o ymreolaeth. Hyd yn oed mewn lleoliadau unigol, gall y math o ryngweithio a'i natur fod yn wahanol iawn rhwng gweithwyr proffesiynol gwahanol.
- 3.11 Ystyriodd ymchwil¹⁵ ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd yn 2012 ansawdd yng nghyd-destun safonau arolygu a chynlluniau sicrhau ansawdd, a daethpwyd i'r casgliad bod pob un ohonynt yn chwarae ei ran wrth wella ansawdd. Mae rheoleiddio ac arolygu yn chwarae rôl wrth sicrhau y caiff safonau penodol eu cyrraedd, wrth ddarparu atebolrwydd ac mewn asesiadau allanol a ddefnyddir i wneud penderfyniadau am gomisiynu (ar gyfer llywodraeth ac awdurdodau lleol), a dewisiadau AGPC (i rieni), ond mae'n offeryn cymharol wan. Gydag arolygiadau anghyson a gallu cyfyngedig i roi adborth a chefnogaeth fanwl, ni all system reoleiddio ynnddi ei hun roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid gwahanol (fel rhieni, awdurdodau

lleol a'r darparwyr eu hunain) ac ni all bob amser ysbrydoli lleoliadau AGPC i wella ansawdd neu ddiwallu eu hanghenion i wella ansawdd. Gwelwyd hefyd anghysondebau rhwng dyfarniadau arolygwyr ac asesiadau annibynnol o ansawdd gan ddefnyddio Graddfeydd Amgylchedd (e.e. ECERS ac ITERS). Ar y llaw arall, gwelwyd bod cyfranogiad mewn cynlluniau sicrhau ansawdd yn gyson ag asesiadau dyfarniadau uwch gan reoleiddwyr a sgoriau uwch ar Raddfeydd Amgylchedd. Yn benodol, cafodd lleoliadau AGPC a gymerodd ran mewn cynlluniau sicrhau ansawdd hefyd ddyfarniadau sylweddol uwch mewn arolygiadau mewn nifer o feysydd (arwain a rheoli, hunanwerthuso, y gallu i wella'n barhaus, ac i ba raddau y caiff anghenion plant eu diwallu), o gymharu â lleoliadau eraill na wnaethant gymryd rhan mewn cynlluniau sicrhau ansawdd.

- 3.12 Canfu astudiaeth gymharol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) o AGPC¹⁶, er bod angen canllawiau cenedlaethol ar ansawdd, fod angen iddynt fod yn ddigon cyffredinol i alluogi lleoliadau unigol i ymateb i anghenion datblygiadol plant a'u gallu i ddysgu. At hynny, rhaid i'r cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd gael ei rannu gan arolygwyr allanol, cynghorwyr addysgeg, ymarferwyr, rhieni a phlant.

Materion

- 3.13 Gan weithio ar y brif egwyddor y dylai'r sector sicrhau bod plant yn cael 'y cychwyn gorau posibl mewn bywyd', rhaid i bob plentyn feddu ar yr hawl i gael darpariaeth AGPC cydradd ac o ansawdd a'r un cyfleoedd, waeth beth fo anghenion y plentyn, cefndir neu sefyllfa ariannol y teulu, na'r ardal. Mae'r teuluoedd hynny sydd â phlant ag anghenion ychwanegol, neu o gartrefi mwy anhrefnus yn enwedig, yn cael budd o ddull gweithredu symlach a mwy cydgysylltiedig o fewn y sector. Mae sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael o'r un ansawdd yn dileu'r elfen o "siawns" pan fydd gofalwyr a rhieni yn ceisio sicrhau lleoliad effeithiol a phriodol i'w plentyn.
- 3.14 Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae angen i bob lleoliad fod yn anelu at ddarpariaeth o'r un ansawdd uchel, p'un a yw'n rhan o'r system a gynhelir neu'r system nas cynhelir - gyda chymhellion i sicrhau gwelliannau cyson a pharhaus

- er mwyn diwallu anghenion holistaidd pob plentyn o adeg geni hyd at saith oed.

- 3.15 Ar hyn o bryd mae gwasanaethau'n cael lefelau gwahanol o gymorth ac yn dilyn fframweithiau gwahanol. Gall lleoliadau AGPC gael eu harolygu gan AGGCC os ydynt yn darparu gofal y tu allan i'r sector addysg a gynhelir; cael eu harolygu gan Estyn os ydynt yn darparu addysg a ariennir yn gyhoeddus; a chael eu monitro gan Athrawon Ymgynghorol a chael cyngor ac arweiniad ganddynt os ydynt yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; cael eu hasesu am ansawdd gan Gynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar os ydynt yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg; a bod yn destun arolygiad pellach os ydynt yn cymryd rhan mewn Cynllun Sicrhau Ansawdd a weithredir gan sefydliad cenedlaethol yn y sector. Mae gan bob corff (neu mewn rhai achosion bob unigolyn) ei flaenoriaeth ei hun ac felly ganfyddiad unigryw o'r hyn y mae ansawdd uchel yn ei olygu. Bydd rhai yn canolbwyntio ar wneud dyfarniadau ansoddol ar ffactorau strwythurol ond bydd eraill yn canolbwyntio ar wneud dyfarniadau ar newidynnau proses.
- 3.16 Nid yw'n syndod bod y sefyllfa hon, yn ôl y sôn, yn achosi dryswch, diffyg ymddiriedaeth ac yn cyfyngu ar allu darparwyr AGPC i bennu nodau a gydnabyddir yn ddibynadwy fel camau tuag at wella ansawdd. Er mwyn lleihau pryder mewn perthynas â disgwiliadau anghyson o fewn ac ar draws arolygiaethau unigol a gwasanaethau cynghori, mae darparwyr a staff cynghori yn y sector AGPC yn galw am fwy o eglurder am rolau a chyfrifoldebau a chysondeb wrth ddehongli ansawdd.
- 3.17 Mae goblygiadau ymagwedd dau lwybr ar wahân tuag at "ofal" ac "addysg" plant yn y sectorau a gynhelir ac nas cynhelir drwy ddwy arolygiaeth sylfaenol wahanol yn gwanhau effeithiolrwydd rheoleiddiol. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith nad yw darparwyr yn y sector nas cynhelir yn grŵp homogenaidd ond yn system gymhleth o grwpiau darparu unigol sy'n cynnig mathau gwahanol o ddarpariaeth gyda nodau a disgwiliadau gwahanol.
- 3.18 Gall arolygiadau unedig a newidiadau i reoliadau strwythurol arwain at wella ansawdd, ond heb fesurau ategol eraill fel diffiniadau cyson o ansawdd,

cynlluniau sicrhau ansawdd a datblygiad proffesiynol parhaus, awgryma tystiolaeth na fyddant yn ddigon i wella ansawdd darpariaeth AGPC, yn enwedig i'r plant ieuengaf.

3.19 Fel Grŵp, rydym yn pryderu'n arbennig am yr hyn rydym wedi ei glywed am ddehongliadau anghyson o ansawdd wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Nodwyd hyn gan athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, sefydliadau'r sector a darparwyr gwasanaethau eu hunain. Fe'i nodwyd hefyd yn yr adroddiad cyntaf ar y Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen¹⁷ a ganfu'r canlynol: "*dengys y dadansoddiad presennol o ddogfennaeth y Cyfnod Sylfaen nad oes unrhyw eglurhad clir ar gyfer dull ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen y gallai ymarferwyr ei ddefnyddio*". Nid yw'n syndod felly fod anghysondeb yn y ddarpariaeth rhwng awdurdodau lleol a lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir, heb unrhyw ddarlun clir o'r hyn, na phwy, sy'n cyflawni arfer gorau.

3.20 Pryderwn y gallai'r anghysondeb hwn gael ei ystyried yn fethiant gan y Cyfnod Sylfaen i gyflawni, pan fo'n amlwg bod y canllawiau ar gyfer gweithredu yn annigonol. Mae rhanddeiliaid yn gyson wedi nodi diffyg: tryloywder, cysondeb a chydweithio gydag asiantaethau sy'n ei gwneud hi'n anodd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae rhai darparwyr wedi nodi eu bod wedi cael eu dadrithio gan gyngor, rhai i'r fath raddau fel nad ydynt wedi dewis gwneud cais am arian Cyfnod Sylfaen. Dywedir bod problemau o fewn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gwaethygu gan ddiffyg cyfeiriad a chymorth pan fydd tensiynau'n codi o ganlyniad i negeseuon cymysg rhwng y rhai sy'n ymwneud â 'gofal' a'r rhai sy'n ymwneud ag 'addysg'. Er mwyn gwella safonau a diwallu anghenion holistaidd y plentyn, mae angen i'r sefyllfa hon newid.

3.21 Byddai un Fframwaith Ansawdd Sengl cenedlaethol ar gyfer AGPC, sydd ar gael i bob gwasanaeth ac sy'n ddigon clir i'w ddilyn i'w galluogi i gynnal hunanwerthusiad cadarn, yn gyfle delfrydol i helpu i wella'r sector cyfan. Er mwyn cefnogi darparwyr AGPC ar draws pob sector, byddai rhwydwaith cymorth rhanbarthol o athrawon ymgynghorol / ymarferwyr AGPC yn darparu cymorth mwy cyson na'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Byddai strwythur cymorth rhanbarthol yn cynnig dull gweithredu

integredig gydag arbenigwyr AGPC arbenigol cwbl hyfforddedig yn cefnogi pob lleoliad, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg, gan ddilyn Fframwaith Ansawdd Sengl cenedlaethol gyda gwerthoedd a rennir a'r gallu i gydweithio'n agos â'r rheoleiddiwr.

Argymhellion

1. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Fframwaith Ansawdd Sengl newydd a chadarn ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar erbyn 2015, yn seiliedig ar y dystiolaeth gryfaf o'r ffordd y mae plant yn datblygu'n fwyaf effeithiol yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol. Dylid cynllunio'r fframwaith hwn mewn ffordd sy'n annog hunanasesu a gwelliant parhaus ar draws y sector ac sy'n sicrhau ei fod yn cael ei ddeall a'i fabwysiadu'n eang gan randdeiliaid yn y sector. Dylai'r Fframwaith Ansawdd Sengl newydd ar gyfer AGPC annog darpariaeth gyson o ansawdd uchel, sy'n arwain at y deilliannau cryfaf, a nodir o fewn y fframwaith fel cerrig milltir i bob plentyn. Daw systemau gwell o ddatblygu plant, sy'n seiliedig ar gerrig milltir penodol, yn ffocws ar gyfer mesurau ansawdd, ochr yn ochr â mesur newidynnau proses neu strwythur, a ddylai fod yn ffordd o gyrraedd y nod. Dylai'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC gynnig canllawiau clir, cryno a safonedig ar gyfer gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar sy'n gyson â'r gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu newydd erbyn 2016. Dylai hyn gynnwys systemau gweithio integredig sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid i'r Fframwaith Ansawdd Sengl gydnabod pwysigrwydd y newidynnau strwythurol a phroses y dangoswyd gan ymchwil eu bod yn creu addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel sy'n caniatáu ar gyfer darpariaeth amrywiol a'r cymunedau amrywiol a wasanaethir gan y ddarpariaeth ledled Cymru. Rhaid i'r Fframwaith Ansawdd Sengl alluogi pob rhanddeiliad, gan gynnwys rheoleiddwyr, arolygwyr, cynghorwyr, ymarferwyr a theuluoedd plant i gael dealltwriaeth glir a chyffredin o'r hyn y mae gwasanaethau AGPC o safon uchel yn ei olygu. Rhaid i'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC ddarparu dehongliad cenedlaethol a chyson o'r Cyfnod Sylfaen.

2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau manwl ar y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC ar gael i bob ymarferydd a lleoliad.
3. Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau cynghori cryf, effeithiol a chyson, yn iaith y lleoliad, i bob lleoliad mewn ymgais i sicrhau bob pob plentyn a theulu yn cael yr un cyfle i gael mynediad at wasanaethau o ansawdd.
4. Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i'r arolygiaeth(au) sicrhau mai'r safonau ansawdd i'w cyrraedd mewn arolygiad yw'r rheini a nodir yn y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC drwy broses wedi ei safoni a'i chymedroli. Dylid meithrin dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau yn gyfartal ymhlith arolygwyr, cynghorwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau.
5. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Byrddau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar Rhanbarthol a rhoi canllawiau i'r Byrddau hyn, gan adeiladu ar fodel consortia addysg Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi'r Byrddau hyn ar waith er mwyn goruchwyllo'r cyngor a'r canllawiau a gynigir; casglu gwybodaeth am anghenion rhanbarthol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a bwydo gwybodaeth yn ôl i Fwrdd AGPC Cenedlaethol Cymru Gyfan, gan gyfrannu at system werthuso genedlaethol. Byddai'r Bwrdd AGPC yn gyfrwng i roi gwybodaeth i'r Llywodraeth a chan y Llywodraeth am ddatblygiadau yn y sector, cynaliadwyedd, gwelliant a modelau arfer gorau.

4. Rheoleiddio addysg a gofal plentyndod cynnar

Y Sefyllfa Bresennol

- 4.1 Diffinnir y systemau gofal ac addysg ranedig gliriaf drwy fodolaeth dau fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar wahân, un ar gyfer addysg ac un ar gyfer gofal. Drwy hynny, felly, yng Nghymru, ystyrir bod addysg yn dechrau pan fydd plant yn 3 neu 4 oed gyda'r ddarpariaeth i blant iau yn cael ei diffinio fel gofal.
- 4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am addysg i blant dros dair oed ac yn buddsoddi mwy o arian cyhoeddus mewn addysg gynnar nag mewn gwasanaethau gofal plant i blant iau. O ganlyniad, mae gwahaniaethau'n bodoli o ran ariannu, mynediad, ansawdd a'r gweithlu, gan arwain at broblemau o ran anghysondeb a diffyg parhad i blant, rhieni a gweithwyr.
- 4.3 Caiff lleoliadau plentyndod cynnar yr ystyrir eu bod yn darparu gofal i blant dan 8 oed eu rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'u harolygu yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ôl cylch blwyddyn neu ddwy flynedd.
- 4.4 Caiff ysgolion yn y sector a gynhelir sy'n darparu addysg gynnar i blant ifanc eu rheoleiddio o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Addysg (2005) a chânt eu harolygu gan Estyn yn ôl cylch chwe blynedd. Nid ystyrir bod ysgolion, hyd yn oed y rheini sy'n darparu AGPC i blant dros dair oed, yn darparu gofal ac felly ni chânt eu rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
- 4.5 Mae plant ifanc, yn aml y rheini sy'n byw mewn cartrefi llai cefnog ac sy'n lleiaf tebygol o allu fforddio costau gofal plant cyson, yn aml yn symud rhwng 'addysg' ran amser a 'gofal' rhan amser yn ddyddiol. Bydd rhieni'n defnyddio pa wasanaethau bynnag sydd ar gael i gyd-fynd â'r diwrnod gwaith a'r rheini y gallant eu fforddio.

- 4.6 Mae tua 700 o leoliadau AGPC nas cynhelir (meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae cyn ysgol a Chylchoedd Meithrin) sy'n darparu dysgu a gofal cynnar yn y Cyfnod Sylfaen yn destun rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Deddf Addysg (2005). Mae'r lleoliadau hyn felly'n destun arolygiadau deuol gan AGGCC ac Estyn (gweler tudalen 38) os ydynt yn cynnig gofal am gyfnodau o ddwy awr neu fwy.
- 4.7 Ni chaiff lleoliadau heb eu cofrestru, nad oes modd meintoli eu nifer, eu rheoleiddio na'u harolygu. Mae'r lleoliadau hyn yn gweithredu am lai na dwy awr, ac efallai na allant gofrestru neu efallai eu bod yn dewis peidio â chofrestru am resymau'n ymwneud â chost cynnal safonau gofynnol neu oherwydd na allant yn syml gynnig darpariaeth sy'n cyrraedd safonau gofynnol.

Tystiolaeth

- 4.8 Gellir gosod sylfeini cryf neu wan ar gyfer datblygiad dilynol plant yn ystod eu blynyddoedd cyntaf mewn bywyd. Gwelir datblygiad gwybyddol, ieithyddol, cymdeithasol, emosiynol ac echddygol yn ystod y cyfnod rhwng genedigaeth a thair oed. Gall diffyg ysgogiad neu rwystrau i gyfleoedd dysgu cynhyrchiol yn ystod y cyfnod hwn arwain at fylchau mawr a pharhaus mewn cyrhaeddiad¹⁸. Ceir bellach sail dystiolaeth eang sy'n dangos bod ymyriadau yn ystod blynyddoedd cyntaf bywyd, ar ffurf addysg a gofal y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, yn cael effaith gadarnhaol ar y datblygiad cynnar hwn, yn enwedig i blant sy'n byw mewn tlodi neu sy'n wynebu anfantais fel arall. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ddeilliannau gwell, yn y byrdymor a'r tymor canolig, na'r rheini a brofir gan blant sy'n derbyn gofal gartref. Canfu astudiaeth hydredol 'The Effective Provision of Pre-school Education'¹⁹ fod addysg a gofal y blynyddoedd cynnar o *ansawdd uchel* yn gwella datblygiad cyffredinol, yn gallu cynnig cyfleoedd cydadferol i blant dan anfantais yn benodol ac yn gallu cael effaith sylweddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddolebau. Mae tystiolaeth ryngwladol yn ategu'r ffaith bod yr effeithiau cadarnhaol hyn ar gydraddoldeb yn parhau pan fydd y plentyn yn tyfu'n oedolyn. Er enghraifft, yn Norwy gwelwyd bod ymestyn AGPC wedi cael yr effeithiau mwyaf ar blant â mamau sydd â lefelau llai o addysg, ac wedi creu'r deilliannau hirdymor mwyaf

cadarnhaol i ferched drwy sicrhau mwy o gyfleoedd yn y farchnad lafur a llai o debygolrwydd o gyflogau isel²⁰.

- 4.9 Mae rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau AGPC yn amlwg yn chwarae rhan wrth hyrwyddo'r math o ddarpariaeth o ansawdd uchel sydd ei angen er mwyn i blant gael sylfeini datblygiadol cryf. Ond mae'r dystiolaeth a glywsom gan y rheoleiddwyr a'r arolygwyr eu hunain yn ogystal â darparwyr AGPC yn awgrymu nad yw'r systemau rheoleiddio ac arolygu presennol yng Nghymru yn hyrwyddo dull cyson o sicrhau ansawdd. Nid yw'n glir ychwaith p'un ai prif ddiben rheoleiddio ac arolygu yw sicrhau bod plant yn ddiogel drwy safonau 'gofynnol' neu a fwriedir i hynny fod yn ffactor ysgogi o ran ansawdd gofal ac addysg gynnar.
- 4.10 Yn draddodiadol, defnyddiwyd rheoleiddio ac arolygu i ddiffinio ffactorau strwythurol (fel cymarebau, cymwysterau a'r amgylchedd) sy'n gymharol hawdd eu cofnodi a'u monitro. Mae newidynnau proses (ansawdd y cynhesrwydd a'r rhyngweithio) yn fwy anodd, ond dywed dystiolaeth ymchwil²¹ wrthym fod y ddau'n angenrheidiol yn y math o ddarpariaeth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddatblygiad plant. Fodd bynnag, gofynnir fwyfwy i reoleiddwyr wneud penderfyniadau am ansawdd newidynnau proses mewn lleoliadau AGPC. Mae dwy astudiaeth yn Lloegr^{22 23} wedi codi cwestiynau am ba mor effeithiol yw rheoleiddwyr ac arolygwyr wrth asesu ansawdd mewn lleoliadau AGPC fel y'i mesurir gan ddatblygiad plant. Canfu'r astudiaethau, er bod y graddfeydd a bennir gan reoleiddwyr ac arolygwyr yn rhagfynegydd eithaf da o ddeilliannau plant oed ysgol, fod graddfeydd ar gyfer lleoliadau AGPC a bennir yn ystod arolygiadau yn llai cywir o ran rhagfynegi deilliannau plant ifanc yn erbyn amrywiaeth o raddfeydd datblygiadol eraill.

Materion

- 4.11 Mae'r system reoleiddio ac arolygu bresennol yn seiliedig ar hen dybiaeth nad yw plant ifanc mewn ysgolion yn cael gofal ac nad yw'r un plant mewn gofal dydd yn dysgu.

- 4.12 Yn hanesyddol, datblygwyd cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu ar wahân er mwyn darparu ar gyfer gwasanaethau gofal ac addysg ar wahân. Bellach mae angen i waith ar draws yr holl systemau, a ddatblygwyd yn wreiddiol ar sail manau darparu/lleoliadau, ganolbwyntio'n fwy ar anghenion unigol a deilliannau'r plentyn. Dros amser, mae'r cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu hyn wedi cael eu mabwysiadu, ac yn aml eu datblygu, i ddarparu ar gyfer patrymau cymdeithasol sy'n newid mewn perthynas â gofal plant ac addysg. Dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i blant ddechrau defnyddio gwasanaethau addysg a gynhelir yn gynt, ac wrth i ddarpariaeth gofal a chwarae ddatblygu ar draws rhwydwaith o ddarparwyr sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gwahanol, mae'r system o addasu gwasanaethau rheoleiddio ac arolygu wedi arwain at system orgymhleth ac anghyson nad yw rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, yn ei deall.
- 4.13 Yng Nghymru, fel mewn sawl rhan o Ewrop, cydnabyddir bod profiadau cynnar yn bwysig i gyfleoedd unigolion mewn bywyd ac, yn y pen draw, bod diogelwch teuluoedd a chymunedau o genhedlaeth i genhedlaeth yn deillio o fuddsoddi mewn gwaith i wella safonau cymdeithasol, emosiynol, addysgol ac ariannol. Wrth i batrymau darpariaeth ddatblygu, mae angen fframwaith integredig a chydlynol i gefnogi datblygiad o ansawdd sy'n gysylltiedig â'r deilliannau mwyaf effeithiol ac effeithlon.
- 4.14 Gallai cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu ar wahân fod yn dderbyniol pe bai'r hyn oedd yn cael ei ddarparu'n wahanol. Ond, ble bynnag y bônt, mae gan blant sy'n mynychu lleoliadau gofal ac addysg cynnar yr un anghenion datblygiadol a'r un hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gael amgylcheddau meithringar a gofalgar lle mae eu hanghenion emosiynol, cymdeithasol ac addysgol yn cael eu diwallu.
- 4.15 Mae pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yn dilyn llwybr cyffredin yn y Cyfnod Sylfaen ni waeth os yw'n mynychu ysgol, grŵp chwarae cyn ysgol neu feithrinfa ddydd, gyda llawer o'r elfennau ansawdd wedi'u cynnwys mewn canllawiau ar y Cyfnod Sylfaen. Mabwysiadwyd y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n dangos mai hwn, os caiff ei gyflwyno'n

briodol, yw'r dull mwyaf effeithiol o gefnogi datblygiad a dysgu cynnar plentyn. Yn yr un modd, nodir egwyddorion gofal o ansawdd mewn canllawiau ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg (ond nid ydynt yn ofynnol ar gyfer pob gwasanaeth AGPC yng Nghymru).

- 4.16 Mae'r Llywodraeth yn gofyn fwyfwy i arolygwyr a rheoleiddwyr wella ansawdd mewn AGPC drwy wneud dyfarniadau nid yn unig am ffactorau strwythurol, ond am newidynnau proses, a hynny'n ddealladwy. Mae tystiolaeth o waith ymchwil yn ogystal â thystiolaeth i'r Grŵp gan yr arolygwyr a'r rheoleiddwyr eu hunain a'r rheini sy'n cynrychioli lleoliadau AGPC yn codi cwestiynau am allu gwaith arolygu a rheoleiddio ynddo'i hun i gyflawni hyn. Mae'n hawdd arolygu a rheoleiddio cymarebau ond mae'n anodd arolygu a rheoleiddio cynhesrwydd. Heb unrhyw ddiffiniad cyson o ansawdd rhwng cyfundrefnau arolygu a rheoleiddio, nid yw'n syndod bod ansawdd gwasanaethau AGPC yng Nghymru mor anghyson.
- 4.17 O ystyried bod y dystiolaeth ymchwil yn derbyn yn gyffredinol fod darpariaeth AGPC o ansawdd da yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant, mae angen derbyn yn gyffredinol beth mae hyn yn ei olygu, ei gynnwys mewn deddfwriaeth a sicrhau bod pob darparwr gwasanaethau AGPC yng Nghymru yn ei ddilyn. Mae angen i ddeddfwriaeth gael ei chefnogi gan gyfres glir, cyson a thryloyw o reoliadau a chanllawiau sy'n disgrifio ac yn diffinio AGPC o ansawdd uchel. Mae hyn yn annhebygol a hwyrach yn amhosibl i'w gyflawni gyda system rheoleiddio ac arolygu ranedig.
- 4.18 Mae system reoleiddio ac arolygu ranedig nid yn unig yn annhebygol o roi'r cychwyn gorau i blant mewn bywyd, ond mae'n rhy gymhleth i rieni, darparwyr a'r rheini sy'n cefnogi'r sector. Ceir cryn dipyn o ddyblygu ymdrech ac adnoddau rhwng rheoleiddwyr ac arolygwyr ac ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol.
- 4.19 Er y gellir priodoli cryn werth i waith yr arolygiaeth a'r rheoleiddiwr, mae rhanddeiliaid yn pryderu efallai fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar *newidynnau proses* yn cyfrannu at ddeilliannau addysgol drwy Estyn a chydymffurfiaeth gyfreithiol a *ffactorau strwythurol* drwy AGGCC – gyda

rhaniad cynyddol rhwng y ddau. Nid yw'r naill arolygiaeth na'r llall ar hyn o bryd yn ymdrin ag arolygu gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiwallu anghenion holistaidd pob plentyn. Ni all y naill arolygiaeth na'r llall siarad yn "arbenigol" am gylch gwaith manwl y llall, ac nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny, am fod ganddynt rôl wahanol i'w chwarae. Serch hynny, mae'r dull holistaidd delfrydol o gyflawni ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan ddechrau drwy ystyried beth sydd ei angen ar bob plentyn, yn galw am hyn. Gan gydnabod mai blynyddoedd cynnar plentyndod yw'r adeg bwysicaf o ran pennu cyfleoedd mewn bywyd, rhaid i gylch gwaith arolygiadau AGPC ac unrhyw fframwaith ansawdd roi'r un gwerth ar ofal, lles a deilliannau addysgol ym mhob darpariaeth heb y rhaniad artiffisial sy'n bodoli ar hyn o bryd.

4.20 Dywedwyd wrthym fod y ddwy arolygiaeth yn cydweithio i ddatblygu dull gweithredu cyffredin o arolygu'r blynyddoedd cynnar. Croesawn y cydweithio hwn a chredwn y dylai'r dull gweithredu hwn adeiladu ar brofiad a gwybodaeth y ddwy arolygiaeth ar sail cydraddoldeb, a chael ei gymhwyso at y sector a gynhelir yn ogystal â'r sector nas cynhelir. Cydnabyddwn, fel y mae'r ddwy arolygiaeth wedi dweud wrthym, fod hyn yn anodd o ystyried y fframweithiau deddfwriaethol penodol a ddilyni'r ganddynt. Ar yr un pryd, nid ydym yn tanamcangyfrif y ffaith mai dim ond ar fraslun o ddarpariaeth y mae arolygwyr yn adrodd. Cydnabyddir efallai nad yw arolygwyr yn y sefyllfa orau i fod yn brif ffactorau ysgogi ansawdd am nad rhoi cyngor a chanllawiau parhaus yw eu cylch gwaith, ond adrodd ar eu canfyddiadau o ddarpariaeth ar unrhyw ddyddiad penodol.

Argymhellion:

6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno un set o Reoliadau a Safonau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn seiliedig ar y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC (gweler Adran 3) yn lle'r rheoliadau o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r elfennau hynny o'r Canllawiau ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Lleoliadau Nas Cynhelir (Deddf Addysg 2005) sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant saith oed ac iau.

Rhaid sicrhau bod grym statudol i'r Safonau hyn a dylent fynd i'r afael â'r gofynion sy'n ymwneud â'r disgwyliadau cyffredin o ran y canlynol:

- blaenoriaethu anghenion y plentyn/plant
- diogelu plant ym mhob lleoliad gofal²⁴ a chynnwys yr hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gael addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel;
- adeiladu ar y gwaith rhwng yr arolygiaethau y rhoddwyd sicrwydd i ni ei fod eisoes yn cael ei wneud
- datblygu'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC i'w weithredu ar draws pob darpariaeth
- lefelau priodol o gymwysterau sy'n asesu cymhwysedd ymarferwyr ar lefel 5 a lefel 6 (gweler tudalen 47);
- sicrhau bod gwasanaethau'n helpu i gyflawni deilliannau cadarnhaol sy'n briodol i oedran a datblygiad drwy'r amgylchedd ffisegol, gan gynnig cyfleoedd sy'n diwallu anghenion datblygiadol plant a datblygiad proffesiynol ymarferwyr;
- cydymffurfio â fframwaith asesu plant yn y blynyddoedd cynnar (gweler adran 8).

7. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Safonau a Chanllawiau newydd i'w drafftio o fewn cyd-destun y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC. Bydd y canllawiau'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau AGPC cyffredinol ac arbenigol, gan gynnwys y rheini yn y sector iechyd yn benodol. Dylai hefyd gynnwys y meini prawf a ddefnyddir i'w harolygu, tra'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut y caiff dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ei gyflawni yng nghyd-destun eu cymunedau.²⁵

Cydnabyddwn y bydd y newidiadau hyn yn galw am ddeddfwriaeth i'w gweithredu, fodd bynnag, rhagwelwn y byddai'r Safonau Newydd ar gyfer AGPC ar waith o 2016.

5. Arolygu addysg a gofal plentyndod cynnar

Y Sefyllfa Bresennol

- 5.1 Rhennir y broses o arolygu gwasanaethau AGPC nas cynhelir rhwng swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Nid oes gan AGGCC unrhyw fandad i arolygu ansawdd gofal mewn lleoliadau a gynhelir. Mae'r gyfundrefn ranedig hon yn sefyllfa sydd wedi datblygu am resymau hanesyddol sy'n gyson â datblygiad systemau a lleoliadau ar wahân sy'n darparu ar gyfer 'gofal' ac 'addysg' yn bennaf. Yn bwysig ddigon, mae angen cydnabod bod y broses o arolygu gofal ac addysg wedi datblygu am resymau gwahanol ond bod anghenion datblygiadol a holistaidd plant wedi parhau'r un fath. Mae hyn wedi dod yn fwy amlwg wrth i blant iau ymuno â'r system a gynhelir.
- 5.2 Mae AGGCC yn arolygu, yn rhoi adborth ac yn cyhoeddi adroddiadau ar wasanaethau'r blynyddoedd cynnar gan ddefnyddio'r rheoliadau a than yn ddiweddar safonau gofynnol cenedlaethol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Fframwaith Dyfarnu Ansawdd diweddar AGGCC yn cynrychioli newid o safonau gofynnol i rai mwy uchelgeisiol. Blaenoriaeth gyntaf AGGCC bob amser fu diogelu defnyddwyr gwasanaethau²⁶ ac yn wahanol i Estyn, mae gan AGGCC rôl orfodi wrth sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cyrraedd safonau rheoliadol. Mae arolygiadau AGGCC yn canolbwyntio ar gydymffurfio â Rheoliadau (yn bennaf Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010). Mae'r rhain yn nodi sut mae'n rhaid i ddarparwyr AGPC drefnu eu gwasanaethau, diwallu anghenion plant a sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae gan AGGCC y gallu i gymryd camau gorfodi naill ai drwy lwybr troseddol neu sifil yn erbyn y darparwyr hynny nad ydynt yn llwyddo i gydymffurfio â gofynion y gyfraith. Rhaid i lleoliadau AGPC yr ystyrir eu bod yn darparu gofal (ac eithrio ysgolion) am fwy na dwy awr y dydd gofrestru ag AGGCC. Unwaith y byddant wedi cofrestru, cânt eu harolygu yn ôl cylch blwyddyn neu ddwy flynedd.
- 5.3 Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan gynnwys ysgolion a lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu

addysg gynnar Cyfnod Sylfaen a ariennir yn ôl cylch chwe blynedd. Mae Estyn yn arolygu lleoliadau yn erbyn eu Fframwaith Arolygu Cyffredin eu hun sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau addysgol, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae arolygiadau Estyn yn gwneud dyfarniadau am ddarpariaeth yn seiliedig ar hunanwerthusiad ac ar sylwadau sydd wedyn yn cael eu bwydo'n ôl i leoliadau, ac yna yn cael eu cyhoeddi. Rhoddir dyfarniad ansoddol cyffredinol yn amrywio o 'Anfoddhaol' i 'Ardderchog'. Gellid gosod ysgolion yr ystyrir eu bod yn anfoddhaol o dan 'Fesurau Arbennig' a gall awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru gymryd camau o dan adrannau 54 i 56 o Ddeddf Addysg (2002).

- 5.4 Mae tua 700 o'r 4,300 o leoliadau AGPC a arolygir gan AGGCC yng Nghymru hefyd yn darparu Addysg Cyfnod Sylfaen a ariennir ac felly cânt eu rheoleiddio o dan Ddeddf Addysg (2005) yn ogystal â Mesur Plant a Theuluoedd (2010), a'u harolygu gan Estyn yn ogystal ag AGGCC. Mae Estyn yn dilyn yr un Fframwaith Arolygu Cyffredin ag ar gyfer ysgolion ond yn cyhoeddi '*Arweiniad ar gyfer Arolygu Lleoliadau Nas Cynhelir*' ar wahân. Mae Estyn yn arolygu lleoliadau AGPC nas cynhelir a gaiff eu hariannu i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen yn ôl cylch chwe blynedd. Mae'r lleoliadau hyn hefyd yn debygol o fod yn gweithio yn unol â chytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol a gall hyn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno arolygiad ar wahân gan yr awdurdod lleol, sy'n golygu y gallant gael eu harolygu dair gwaith ar gyfer yr agwedd hon ar ddarpariaeth i blant.

Tystiolaeth

- 5.5 Daw ymchwil ryngwladol, fel dadansoddiad OECD yn 2008 o'r broses o ddadansoddi cyfundrefnau llywodraethu²⁷ ac adroddiad UNESCO yn 2010²⁸ ar integreiddio AGPC, i'r casgliad clir bod y math o strwythur llywodraethu sydd ar waith yn dylanwadu'n gryf ar gwmpas ac ansawdd gwasanaethau AGPC o fewn gwlad. Maent yn dodt i'r casgliad bod cyfundrefnau arolygu rhanedig yn aml yn creu sector gofal plant a reoleiddir yn wan ac yn 'ysgoleiddio' addysg gynnar, sefyllfa a wrthodwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

- 5.6 Yn y sector 'gofal', dywedir bod ansawdd yr amgylchedd dysgu yn aml yn wael oherwydd canllawiau gwan gan y wladwriaeth, lefelau isel o gymwysterau ymhlith staff, cyflogau isel ac amodau gwaith amrywiol. Ochr yn ochr â hyn, mewn systemau rhanedig, mae amryfusedd gan arolygiaethau addysg yn arwain at ffocws ar nodau academaidd y gellir eu nodweddu gan gymarebau plentyn: ymarferydd uchel ac esgeuluso strategaethau dysgu naturiol y plentyn.

Yng Nghymru, er gwaethaf y Cyfnod Sylfaen - sy'n ceisio canolbwyntio ar yr agweddau ehangach at ddatblygiad - fel sgiliau corfforol ac echddygol, emosiynol-gymdeithasol, cyfathrebu, personol a chymdeithasol, a datblygiad diwylliannol ac artistig - mae temtasiwn mewn llawer o ysgolion i ganolbwyntio'n rhy gynnar ar addysg ffurfiol. Codwyd pryder gyda'r Grŵp y gall y fframwaith arolygu ysgol gyfan atgyfnerthu hyn gan olygu efallai y rhoddir llai o sylw i arolygu darpariaeth feithrin mewn ysgolion cynradd nag y gallai fod yn wir pan fydd Estyn yn arolygu darparwyr yn y sector nas cynhelir neu ddarpariaeth feithrin yn unig yn y sector a gynhelir.

Materion

- 5.7 Mae fframwaith ansawdd a rheoleiddio ac arolygu integredig yn galw am reoleiddiwr integredig. Nid yw diwylliannau amrywiol y systemau rheoleiddio ac arolygu presennol (Estyn ac AGGCC) yn gweddu i'r dull holistaidd sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sydd ei angen i gyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn *'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'*. Nid ydynt ychwaith yn cefnogi'r dysgu a'r datblygu, na'r hanfodion economaidd sy'n diogelu cenedlaethau o blant heddiw ac yn y dyfodol.
- 5.8 Am resymau gwahanol, gallu cyfyngedig sydd gan AGGCC ac Estyn i wella ansawdd gwasanaethau AGPC. Mae gan AGGCC rôl benodol i'w chwarae wrth sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol â rheoliadau sydd o ganlyniad yn canolbwyntio ar ffactorau strwythurol. Mae'r elfennau hyn (fel cymarebau, cymwysterau a phrofiad) yn hawdd eu mesur a gallant fod yn brocsâid ar gyfer ansawdd uchel. Er bod astudiaethau wedi canfod bod cysylltiadau rhwng ffactorau strwythurol a darpariaeth o ansawdd uchel, nid yw hynny'n golygu y

bydd gwella ffactorau strwythurol yn gwella ansawdd. Ni fydd rhoi llai o blant i weithiwr gofal plant proffesiynol nad yw'n perfformio'n dda o reidrwydd yn gwella cynnwys y gofal hwnnw²⁹. Er mwyn i wasanaethau fod o ansawdd uchel, mae angen ystyried ffactorau strwythurol a phroses. Ar y llaw arall, mae Estyn yn arolygu yn erbyn Fframwaith sy'n canolbwyntio ar newidynnau proses ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar safonau a deilliannau addysg.

- 5.9 Er bod Estyn ac AGGCC yn cydnabod bodolaeth y llall wrth gynnal arolygiadau, mae'r Grŵp wedi clywed tystiolaeth gadarn gan y ddau nad oes llawer yn gyffredin rhyngddynt. At hynny, ychydig iawn o ganllawiau sydd ar gael i ddarparwyr gwasanaethau benderfynu sut i bontio gofynion y ddwy arolygiaeth er mwyn darparu AGPC o ansawdd uchel a gydnabyddir. Mae'r ddau sefydliad wedi dweud wrthym na allant arolygu gwasanaethau gyda'i gilydd oherwydd eu rolau gwahanol wrth reoleiddio, arolygu a gorfodi, yn ogystal â'u diwylliannau a'u hathroniaethau unigryw. Felly, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfle i ddod â'r broses o arolygu gwasanaethau AGPC ynghyd yn foddhaol.
- 5.10 Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Grŵp yn nodi achosion o orgyffwrdd rhwng y ddwy arolygiaeth sy'n creu'r posibilrwydd o wrthdaro. Mae Estyn ac AGGCC wedi dweud wrthym eu bod yn cael anhawsterau i reoli ffiniau oherwydd y fframweithiau deddfwriaethol gwahanol y mae'n rhaid iddynt eu dilyn. Mae hyn yn arwain at ffiniau aneglur rhwng y cyfundrefnau, iaith anghyson yn cael ei defnyddio a darparwyr gwasanaethau yn cael negeseuon anghyson am yr hyn a ddisgwylir ganddynt ynghyd â chostau cynyddol i'r darparwr yn sgil dyblygu gwaith arolygu. Gall finiau aneglur gael effaith sylweddol ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau. Mewn rhai achosion, mae rhanddeiliaid wedi rhoi enghreifftiau lle mae un arolygiaeth wedi anghytuno ag argymhellion y llall. Daw'n fwy cymhleth pan fydd awdurdodau lleol hefyd yn ymwneud â goruchwyllo gwasanaethau AGPC. Er enghraifft, clywsom athrawon ymgynghorol awdurdodau lleol yn sôn am eu rôl mewn perthynas â chadarnhau bod lleoliadau nas cynhelir yn cyrraedd Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a thrwy hynny'n ceisio dyblygu swyddogaeth AGGCC heb awdurdod ac mewn rhai achosion yn peryglu cydymffurfiaeth â rheoliadau.

Argymhellion

8. Argymhellwn y dylai'r gwaith ar y cyd y mae AGGCC ac Estyn yn ei wneud yn ôl y sôn mewn lleoliadau nas cynhelir gael ei ddatblygu ymhellach er mwyn galluogi Estyn i fanteisio ar arbenigedd AGGCC mewn perthynas â gofal ac i lywio'r gwaith o arolygu'r ddarpariaeth i blant dan 7 oed yn y lleoliadau a gynhelir. Dylai'r gwaith hwn gynnwys datblygu iaith gyffredin a ddefnyddir ar gyfer pob lleoliad (ar hyn o bryd, gall defnyddio geirfa arwain at gamddechongli o gofio bod Estyn yn gwneud defnydd penodol o rywfaint o derminoleg nad yw'n gymwys i AGGCC) sy'n darparu ar gyfer plant dan 7 oed ac y dylid ei datblygu er mwyn galluogi Estyn i lywio penderfyniadau AGGCC mewn perthynas ag adrodd ar ofynion deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen.

9. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer un system arolygu unedig yn lle cyfundrefnau arolygu deuol ¹o 2016. Byddai arolygiaeth unedig yn cynnig cyfle i wneud y canlynol;
 - sicrhau bod buddiannau'r plentyn yn parhau i fod yn hollbwysig drwy ddileu'r ffocws ar densiynau rhwng dwy agwedd fwyfwy amrywiol i bob golwg ar y gweithlu plant;
 - sefydlu ymagwedd gyson at wasanaethau plant yn y blynyddoedd cynnar a fydd yn gwella profiadau plant ifanc a'u teuluoedd ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer trosglwyddo'n ddidrafferth rhwng lleoliadau gwahanol;
 - gwella dealltwriaeth a chyfleoedd i gefnogi'r disgwyliadau a'r dyheadau cynyddol i blant ym mhob lleoliad;
 - gwella dealltwriaeth o'r rhyngddibyniaeth rhwng gofal ac addysg *gan bwysleisio pwysigrwydd y ddau* o ran helpu plentyn i wireddu ei botensial yn llawn;
 - sicrhau bod pob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant yn deall cyd-destun bywydau plant, eu hanghenion fel unigolion ac fel grŵp ac yn darparu ar gyfer y rhain;

- egluro ffiniau mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel o ddarpariaeth a chefnogaeth;
- sicrhau bod pob aelod o staff ar bob lefel sy'n dilyn y fframwaith hwn yn gweithredu o fewn paramedrau eu rolau a'u cyfrifoldebau;
- defnyddio'r profiadau o uno rheoleiddwyr fel enghraifft i annog integreiddio ehangach a threfniadau cydweithio gwell ar draws gwasanaethau eraill sy'n diwallu anghenion plant a theuluoedd.

- 5.11 Dylai'r fframwaith ar gyfer arolygiaethau unedig adeiladu ar gryfderau presennol y ddau sefydliad sefydledig a'u gwella. Byddai'r arolygiaeth unedig yn cofrestru ac yn arolygu lleoliadau unigol tra'n casglu gwybodaeth ar yr un pryd sydd, pan gaiff ei choladu, yn gallu rhoi gwybodaeth i wneuthurwyr penderfyniadau am effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir yn erbyn amcanion polisi.
- 5.12 Byddai angen i'r rheini sy'n staffio'r arolygiaeth gael hyfforddiant, cefnogaeth ac arweinyddiaeth briodol i'w galluogi i greu diwylliant newydd sy'n canolbwyntio ar hawliau plant.
- 5.13 Rhaid i'r arolygiaeth unedig gael niferoedd digonol o arolygwyr sy'n siarad Cymraeg i arolygu lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, sydd â gallu ieithyddol ddigonol i asesu pob lleoliad a ddylai fod yn datblygu gweithgareddau caffael Cymraeg i blant yn y blynyddoedd cynnar.
- 5.14 Bydd costau cychwynnol yn gysylltiedig â sefydlu arolygiaeth unedig ond gellid talu costau gweithredol o gyllidebau presennol AGGCC ac Estyn gan y byddai ganddynt swyddogaeth lai. Yn y tymor hwy, byddai strwythur unedig yn lleihau dyblygu ac o ganlyniad yn lleihau costau.
- 5.15 Os gweithredir ein hargymhellion, cydnabyddwn, er y byddai lleoliadau nas cynhelir sy'n cynnig darpariaeth Cyfnod Sylfaen a ariennir yn cael llai o arolygiadau, y gellid ystyried y byddai rhai ysgolion cynradd yn cael mwy ohonynt, gydag arolygiad gan Estyn (ar gyfer darpariaeth y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen) a'r Arolygiaeth Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar unedig (ar gyfer

darpariaeth Cyfnod Sylfaen). Yn ymarferol, dim ond ar y cyfnod perthnasol o'r cwricwlwm y byddai pob arolygiad yn canolbwyntio a dim ond unwaith y byddai pob cam o'r cwricwlwm yn cael ei arolygu. Er ei bod yn anochel y byddai materion addasu byrdymor yn gysylltiedig ag arolygiad ysgol gyfan, byddai manteision hirdymor sylweddol yn gysylltiedig ag arolygiad sy'n canolbwyntio ar y cam pwysicaf yn natblygiad plentyn , a byddai'n lleihau'r tensiwn a welir mewn rhai ysgolion lle nad oes gan uwch dimau rheoli ddealltwriaeth ddigonol o'r Cyfnod Sylfaen.

Rhaid i gynllun y gyfundrefn newydd leihau dyblygu ymdrech drwy gydgyssylltu a chynllunio arolygiadau lle y gallai lleoliadau fod yn destun dau arolygiad. Gellid cyflawni hyn drwy drefnu arolygiad cydamserol o'r Cyfnod Sylfaen a'r ddarpariaeth ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol. Byddai angen ystyried yr arfer a'r effaith ar ddisbarthiadau oedran cymysg lle y caiff plant yn y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu ochr yn ochr â'r rheini a fydd wedi symud ymlaen o'r Cyfnod Sylfaen.

6. Cydweithio

Y Sefyllfa Bresennol

- 6.1 Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) sy'n gyfrifol am AGPC yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan adlewyrchu'r rhaniad traddodiadol, y Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am addysg gynnar a'r Cyfnod Sylfaen a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi sy'n gyfrifol am 'ofal plant' a chymorth i deuluoedd.
- 6.2 Ar lefel Gyfarwyddiaeth, Is-adran Cwricwlwm AdAS sy'n gyfrifol am addysg gynnar a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi o fewn y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n gyfrifol am ofal plant. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae gweision sifil yn gweithio ar draws cyfarwyddiaethau ar bolisi AGPC.

Tystiolaeth

- 6.3 Ceir tystiolaeth ryngwladol gref bod plant a theuluoedd yn cael y budd mwyaf mewn gwledydd lle mae'r elfennau gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar wedi'u huno. Yn ôl ymchwil gan OECD³⁰ ar sicrhau proses uno effeithiol, ceir pum elfen strwythurol y mae'n rhaid eu cyflawni:

- sicrhau gwaith datblygu polisi cydgysylltiedig ar lefel ganolog;
- penodi gweinyddiaeth arweiniol;
- cydgysylltu lefelau canolog a datganoledig;
- mabwysiadu proses ddiwygio gydweithredol a chyfranogol; a
- meithrin cysylltiadau ar draws gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ac ar lefel leol.

Materion

- 6.4 Hyd yma, mae ein hargymhellion wedi canolbwyntio ar gydgysylltu seilwaith AGPC ledled Cymru er mwyn sicrhau bod plant ifainc yn cael gofal ac addysg gynnar o'r ansawdd gorau posibl gan wasanaethau lleol. Fodd bynnag, er

mwyn i bolisi AGPC fod yn effeithiol, rhaid i'r gwaith o lunio polisi gael ei gydgysylltu o fewn Llywodraeth a'i efelychu ar lefel ranbarthol a lleol.

- 6.5 Mae AGPC yn cefnogi ystod eang o agendâu polisi llywodraeth - fel sicrhau cyflenwad llafur, trechu tlodi, cyfle cyfartal i ferched, lles y teulu a chynhwysiant cymdeithasol - ond mae perygl gwirioneddol y bydd system ranedig sy'n gwahanu polisi gofal plant oddi wrth addysg yn cynnal agendâu ar wahân. Dylai lles a dysgu plant fod yn nodau craidd gwasanaethau AGPC, ond gellir dadlau bod gwasanaethau gofal plant i blant dan 3 oed yn ychwanegiad at bolisïau'r farchnad lafur. Gall hyn olygu bod ein plant ieuengaf mewn lleoliadau ag agendâu datblygiadol gwan. Ochr yn ochr â hyn, mae gwasanaethau addysg gynnar cyn ysgol yn gosod y rhan fwyaf o blant rhwng 3 a 6 oed mewn dosbarthiadau ysgol gynradd a nodweddir gan athrawon a staff cymorth nad ydynt yn arbenigo ym maes plant yn y blynyddoedd cynnar a heb weithwyr gofal proffesiynol.
- 6.6 Yng Nghymru, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ymgorffori hawliau plant ar draws pob ffrwd waith. Felly, rhaid i bolisi AGPC ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau'r budd gorau i blant gan ddangos dealltwriaeth well o dasgau datblygiadol penodol a strategaethau dysgu plant ifanc.
- 6.7 Ar lawr gwlad, cynigiwn y dylid uno gwasanaeth o fewn fframwaith ansawdd cenedlaethol sy'n dwyn y traddodiad o ofal ac addysg ynghyd ac mae angen i hyn gael ei efelychu ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Argymhellion

10. Argymhellwn ar lefel genedlaethol y dylai'r Prif Weinidog ystyried neilltuo un cyfrifoldeb gweinidogol am AGPC wedi'i ategu gan un strwythur adrannol.
11. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cymorth AGPC (fel gwasanaethau cynghori) eu darparu'n rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol (ar sail patrwm y consortia addysg rhanbarthol). Byddai hyn yn cydbwysu'r broses o wneud penderfyniadau yn lleol gyda'r angen i leihau amrywiadau o ran

mynediad ac ansawdd, byddai'n sicrhau mwy o gysondeb wrth ddehongli a darparu gwasanaethau, yn cynnig cyfleoedd i gasglu mwy o arbenigedd a byddai'n fwy cost-effeithiol.

12. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru arwain awdurdodau lleol i efelychu'r ymagwedd unedig at AGPC er budd gorau plant, teuluoedd a chymunedau.
13. Argymhellwn y dylai'r Fframwaith Ansawdd Sengl newydd ar gyfer AGPC gael ei weithredu ar draws y sector a'i hyrwyddo fel ffocws cychwynnol ar gyfer trefniadau cydweithio sy'n annog system a rennir yn ymwneud â safonau, iaith a gwerth proffesiynol.

7. Y gweithlu

Y Sefyllfa Bresennol

- 7.1 Nid oes gofynion penodol ar gyfer y gweithlu AGPC yng Nghymru o ran cymwysterau na chymarebau staff i blant.
- 7.2 Rhaid i leoliadau AGPC a gaiff eu rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y cymwysterau addas. Nodir y gofynion o ran cymwysterau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r unigolyn sy'n gyfrifol am leoliad gofal dydd feddu ar gymhwyster lefel 3. Mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol, mae o leiaf hanner y staff nad oes ganddynt rôl oruchwylio yn meddu ar gymhwyster lefel 2, ac mae'n rhaid i hanner ohonynt feddu ar gymhwyster lefel 3. Mewn gofal dydd llawn, rhaid i 80% o'r staff feddu ar gymhwyster lefel 2, ac mae'n rhaid i 50% ohonynt feddu ar gymhwyster lefel 3³¹. Mae Cyngor Gofal Cymru yn gyfrifol am gytuno ar y Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru a'i chyhoeddi.
- 7.3 Mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Dydd a Gwarchod Plant yn gofyn am gymwysterau lefel 3 er mwyn arwain a rheoli darpariaeth AGPC sy'n seiliedig ar grŵp, ag eithrio gwarchodwyr plant nad yw'n ofynnol iddynt feddu ar gymhwyster lefel 3 llawn ond sy'n gorfod cwblhau cwrs cyn-cofrestru priodol a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru ac sy'n rhan o'r Rhestr o Gymwysterau gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru.
- 7.4 Mewn lleoliadau AGPC sy'n derbyn arian Dechrau'n Deg, lle y caiff gwasanaethau eu targedu at y plant mwyaf economaidd ddifreintiedig, rhaid i bob ymarferydd feddu ar gymhwyster NVQ/QCF Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant o leiaf. Rhaid i arweinwyr lleoliadau feddu ar gymhwyster NVQ Lefel 4 / QCF Lefel 5 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant neu gymhwyster cyfatebol, ac argymhellir y dylai arweinwyr fod wedi dilyn y modiwlau Arweinyddiaeth o fewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5.

Rhaid i bob aelod o staff Dechrau'n Deg ddilyn pum niwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn³².

- 7.5 Mewn ysgolion sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, y gymhareb oedolyn i ddisgybl (sic) a argymhellir ar gyfer plant rhwng 3 a 5 oed yw 1:8 gydag un yn athro cymwysedig. Nid oes unrhyw ofynion penodol i staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru³³ sy'n gweithio gyda phlant cyn ysgol gael unrhyw hyfforddiant arbenigol.
- 7.6 Rhaid i Athrawon yng Nghymru sy'n arwain y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion fod yn raddedigion prifysgol sy'n meddu ar radd berthnasol a chymwysterau addysgu a rhaid iddynt fod wedi cwblhau cyfnod prawf. Maent wedi'u cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) fel athrawon ysgol gynradd sydd wedi cymhwysu i addysgu plant rhwng 3 a 12 oed. Fodd bynnag, gall faint o brofiad sydd gan athrawon ym maes AGPC amrywio. Bydd y rhan fwyaf o athrawon ysgol gynradd yn y DU yn cwblhau eu hyfforddiant a'u gwaith prawf cychwynnol heb fawr ddim rhyngweithio na gwaith datblygiad proffesiynol gyda phlant rhwng 3 a 5 oed ac yn aml ni fyddant wedi cael unrhyw hyfforddiant i addysgu plant iau, na chyswllt proffesiynol â hwy³⁴.

Tystiolaeth

- 7.7 Ymhlith ymchwil ryngwladol arall, mae astudiaeth EPPE³⁵ yn darparu tystiolaeth gymhellol o'r effaith gadarnhaol y mae ymarferwyr lefel uwch sy'n meddu ar y cymwysterau priodol yn ei chael ar blant ym maes AGPC. Canfu'r astudiaeth mai lleoliadau sydd â staff â chymwysterau lefel uwch, ac yn enwedig y rheini a arweinir gan athrawon cymwysedig oedd â'r sgoriau ansawdd uchaf a'r plant a oedd yn gwneud y cynnydd datblygiadol mwyaf.
- 7.8 Mae ymchwil bellach³⁶ wedi dangos nad yw'r effaith yn gyfyngedig i leoliadau a arweinir gan athrawon yn unig, ond bod timau o staff mwy cymwysedig gydag arweinwyr y blynyddoedd cynnar graddedig yn cynnig cymorth o ansawdd uwch i blant hŷn (rhwng 30 mis a 5 oed)³⁷ gan feithrin sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd a'u sgiliau rhesymu, meddwl a mathemategol. Gwelwyd bod effaith arweinwyr sy'n meddu ar gymwysterau uwch yn rhagori ar "werth

ychwanegol" eu rhyngweithiadau unigol â phlant: roedd staff â llai o gymwysterau hefyd yn cefnogi'r dysgu'n sylweddol well wrth weithio gydag arweinwyr graddedig. Mae hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau o astudiaeth EPPE a ganfu fod cyflogi rhywun â chymhwyster lefel uwch yn gwella cynhesrwydd ac ansawdd rhyngweithiadau a datblygiad gwybyddol plant yn sylweddol

- 7.9 Canfu ymchwil gan Gyngor Gofal Cymru³⁸ yn 2012, er bod 85% o ymarferwyr yn y sector nas cynhelir yn meddu ar gymhwyster lefel 2 o leiaf, a 60% yn meddu ar gymhwyster lefel 3, bod llai na 10% o ymarferwyr AGPC yn meddu ar gymhwyster perthnasol uwch.

Materion

- 7.10 Mae'r anghysondeb o ran gofynion cymhwyso ar draws lleoliadau AGPC yn enghraifft arall o sut mae'r gwahaniaeth rhwng yr elfennau gofal a'r elfennau addysg o wasanaethau plant yn amlygu ei hun mewn ffordd ddi-fudd yn y blynyddoedd cynnar. Ategir hyn nid yn unig gan y fframweithiau rheoleiddio ac arolygu ar wahân ond hefyd gan draddodiadau proffesiynol hirsefydledig a warchodir yn ofalus.
- 7.11 Nid yw gofynion gwahanol ar gyfer y gweithlu gofal plant a reoleiddir, Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen yn gwneud unrhyw synnwyr yng nghydestun anghenion a hawliau plant.
- 7.12 Mae angen adeiladu ar strategaethau gweithlu a chymwysterau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau na fydd Cymru ar ei hôl hi drwy: beidio â gofyn am gymwysterau lefel uwch mewn lleoliadau nas cynhelir; caniatáu amwysedd ac anghysondeb o ran cymwysterau gofynnol cynorthwywyr addysgu a dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion; derbyn gofynion isel o ran cymwysterau gofynnol i ymarferwyr yn y sector nas cynhelir a lefel y profiad a'r arbenigedd a ddisgwylir gan athrawon sy'n arwain y Cyfnod Sylfaen. Pa le bynnag y caiff gwasanaethau plant yn y blynyddoedd cynnar eu darparu, dylent gael eu cefnogi gan weithlu uchelgeisiol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau sy'n briodol i'r oedran, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant.

7.13 Mae gennym hefyd anghysondeb yn y Cyfnod Sylfaen o ran darparu AGPC cyfrwng Cymraeg. Dylai pob ymarferydd feddu ar sgiliau ieithyddol sy'n briodol i'w lleoliad/ysgol, fel y gellir cyflwyno'r holl feysydd dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Arweinyddiaeth Addysgol

7.14 Dylem fod yn gweithio tuag at sefyllfa yng Nghymru lle mae'r holl wasanaethau AGPC sy'n seiliedig ar grŵp³⁹ i blant ifainc yn cael eu harwain gan athro neu ymarferydd graddedig gydag arbenigedd mewn addysgeg, sy'n ei alluogi i gefnogi datblygiad plant yn y ffordd orau bosibl. Fodd bynnag, ceir rhwystrau sylweddol i gyflawni hyn sydd angen eu goresgyn yn systematig.

7.15 Ar hyn o bryd, yr unig lwybr cydnabyddedig i ddod yn ymarferydd lefel uwch o'r fath sydd ei angen yng Nghymru yn ôl ymchwil yw Statws Athro Cymwysedig (SAC), ac nid yw hwn hyd yn oed o reidrwydd yn paratoi athrawon yn effeithiol i weithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Cydnabu adolygiad diweddar o'r gweithlu AGPC yn Lloegr⁴⁰ y mater hwn hefyd gan argymhell y dylid creu llwybr arbenigol newydd ym maes y blynyddoedd cynnar at Statws Athro Cymwysedig. O ystyried yr ymagwedd sy'n seiliedig ar addysgeg yn hytrach nag ymagwedd yn seiliedig ar addysg sy'n gynhenid o fewn y Cyfnod Sylfaen, byddem yn cefnogi datblygiad o'r fath yng Nghymru gyda SAC cofrestredig ar wahân ym maes y Blynyddoedd Cynnar sy'n arbenigo yn y blynyddoedd o enedigaeth hyd at saith oed.

7.16 Mae llawer o leoliadau AGPC nas cynhelir eisoes yn cyflogi arweinwyr â Statws Athro Cymwysedig a byddent yn cael budd pellach o Statws Athro Cymwysedig arbenigol a gefnogai'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol o ran y ffordd y caiff lleoliadau nas cynhelir eu hariannu o gymharu ag ysgolion yn golygu nad yw llawer o leoliadau yn gallu cynnig cyflogau cymesur. Byddai model o arweinyddiaeth AGPC a werthfawrogi SAC yn unig, yn diystyru ac yn dieithrio llawer o'r gweithlu AGPC sy'n bodoli eisoes. Ni fyddai model o'r fath yn cydnabod ystod ehangach o gymwyseddau na gwerth dysgu a phrofiad seiliedig ar waith, a byddai'n atal cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa.

7.17 Mewn gwledydd eraill yn Ewrop⁴¹ sydd â systemau a chwricwlwm blynyddoedd cynnar tebyg i'r Cyfnod Sylfaen, ceir lleoliadau a arweinir gan ymarferwyr arbenigol sy'n meddu ar gymwysterau uwch, a dangoswyd eu bod yn cyflawni deilliannau o ansawdd uchel ym maes AGPC. Mae'r Arbenigwyr (neu addysgwyr) hyn ym maes AGPC fel arfer wedi cael hyfforddiant trydyddol i weithio'n benodol gyda phlant o enedigaeth hyd at bump neu chwech oed a gyda statws tebyg i athro ysgol gynradd neu ychydig is. Yn Lloegr, cynlluniwyd datblygiad cymhwyster Statws Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar (EYPS) yn y ffordd hon, a galluogodd ymarferwyr AGPC a oedd eisoes wedi cael hyfforddiant galwedigaethol i ennill cymhwyster arweinyddiaeth ar lefel uwch. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth⁴² nad yw'r cymhwyster wedi rhoi'r statws uwch - yn gyfwerth â statws athro - yr oeddent yn gobeithio amdano, na chyflog ac amodau gwell, gan arwain at rywfaint o ddadrithio a llai o bobl yn ymgymryd â'r cymhwyster, ac fe'i diddymwyd yn dilyn Adolygiad Nutbrown yn 2012.

7.18 Mae angen llwybr galwedigaethol arnom sy'n meithrin ymarferwyr lefel uwch (lefel 6) a all arwain timau a chael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddeilliannau ym mhob lleoliad. Mae gwaith wedi dechrau i ystyried strwythur y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd gydnabod ein bod yn dechrau o sylfaen isel heb lawer o arian mewn lleoliadau nas cynhelir i gyflawni'r nod. Felly, mae dull gweithredu graddol yn angenrheidiol. Fel cam cyntaf tuag at sector addysg a gofal plant a arweinir gan raddedigion, byddai'r Diploma presennol mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar lefel 5 (Ymarfer Uwch) yn bodloni rhai o'r rhag-amodau ar gyfer arweinyddiaeth o ansawdd mewn lleoliadau ac mae'n gyson â'r camau a gymerwyd yng Nghymru i werthfawrogi a chydabod cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

7.19 Yn y pen draw, dylai Statws Athro Cymwysedig Arbenigol ym maes Plant yn y Blynyddoedd Cynnar a Chymhwyster Arwain (Addysgol) Gofal ac Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ar lefel 6 ddod ynghyd fel rhan o fframwaith cymwysterau integredig sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa ac sy'n herio'r hierarchaeth dybiedig rhwng 'athrawon' a 'gwarchodwyr plant' a rhwng y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir. Mae'r anghysondeb o ran parch yn mynd yn groes i gydlyniant proffesiynol ac nid yw o fudd i deuluoedd

sy'n ceisio penderfynu ar y lleoliad gorau i'w plentyn. Ceir tystiolaeth hefyd⁴³ y gall y diffyg cydlynant hwn gael effaith negyddol ar ddatblygiad plentyn, gan gael effaith fwy sylweddol ar y rheini sydd eisoes yn wynebu anfantais. Fodd bynnag, yn bragmataidd, o ystyried y profiad mewn gwledydd eraill, ni chredwn y caiff statws arweinwyr nad ydynt yn athrawon ei ystyried yn gyfwerth â Statws Athro Cymwysedig yn y tymor byr. Felly, dylid sicrhau bod llwybrau at statws arweinydd arbenigol ym maes plant yn y blynyddoedd cynnar ar gael gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith a chefnogi amrywiaeth o uchelgeisiau yn y gweithlu blynyddoedd cynnar.

7.20 At hynny, mae angen ystyried y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan y rheini sy'n rheoli lleoliadau. Byddai gofyniad rheoliadol i sefydliadau gael eu harwain gan ymarferydd lefel uwch yn sicrhau bod lleoliadau AGPC yn gyson â gofal cymdeithasol i oedolion. Ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, mae'n ofynnol i'r rheini sy'n rheoli darpariaethau i oedolion sy'n agored i niwed feddu ar gymhwyster rheoli lefel 5 er mwyn ymarfer. Ni ddisgwylir hyn gan y gweithlu blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd.

Rheoli ac Arwain

7.21 Yn ogystal ag arweinyddiaeth addysgol, mae angen rheolaeth ac arweinyddiaeth sefydliadol dda mewn lleoliadau AGPC er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel. Mewn ysgolion bach, mae penaethiaid (sy'n ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol) yn rhoi arweiniad addysgol a gweinyddol tra bydd gan ysgolion mwy o faint dîm rheoli all ganolbwyntio ar rolau gwahanol. Mewn lleoliadau nas cynhelir, hyd yn oed y rheini sy'n cyflogi niferoedd sylweddol o ymarferwyr, nid oes unrhyw ofyniad rheoliadol i'r rheini sy'n rheoli lleoliadau feddu ar gymhwyster sy'n seiliedig ar ymarfer y tu hwnt i Lefel 3. Mae cymhwyster Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5 (llwybr Rheoli) yn darparu safon addas ar gyfer arweinwyr lleoliadau AGPC mwy o faint ac mae eisoes yn ofynnol ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg yng Nghymru. I lleoliadau bach lle mae'r arweinydd hefyd yn ymarferydd o fewn y cymarebau plentyn: oedolyn (a lle, os caiff argymhellion yr adroddiad hwn eu gweithredu, y bydd yn ofynnol iddynt

gyflawni cymhwyster Ymarfer Uwch mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 5 fel arweinydd yn y lleoliad) a lle nad oes cymaint o angen am arweinyddiaeth weinyddol, rhaid i arweinwyr hefyd gael y cyfle i adeiladu ar eu statws Ymarferydd Uwch er mwyn ennill cymhwyster rheoli uwch (ar lefel 5 neu 6) os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Ymarferwyr

7.22 Yng Nghymru, rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i gynnal gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar gymhwysedd (yn wahanol i ddatblygiadau diweddar yn Lloegr) drwy sicrhau bod cymwysterau sy'n ofynnol i ymarfer wedi'u cynllunio i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ymarferwyr yn ogystal â mesur cymhwysedd. Wedi dweud hynny, nid ydym wedi gwneud y camgymeriad o dybio y bydd cymwysterau lefel uchel ynddynt eu hunain yn diwallu anghenion y gweithlu. Mewn sawl ffordd, mae'r Cyngor Sgiliau Sector (Cyngor Gofal Cymru) wedi rheoli gwybodaeth a sgiliau cynyddol y gweithlu'n ofalus drwy gymryd camau graddol i gynyddu deilliannau cymwysterau, gwybodaeth a chymhwysedd i'r rheini sy'n gweithio ac yn arwain yn y sector. Yn bwysicaf oll, mae'r rhestr o gymwysterau gofynnol a ddatblygwyd ar gyfer y sector AGPC nas cynhelir wedi sicrhau bod cymwysterau a gynigir yn rhai lefel uchel yn gynyddol ac, yn hollbwysig, yn briodol. Serch hynny, teimlwn y dylid adeiladu ar y sail dystiolaeth drwy anelu at weithlu AGPC sy'n meddu ar gymhwyster lefel 3. Dylai hyn gynnwys nid yn unig ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau a reoleiddir o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ond hefyd cymorthyddion mewn ysgolion sy'n gweithio fel rhan o'r gymhareb 1:8 i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol yn gyson â'r blaenoriaethau presennol o ran ariannu prentisiaethau ac felly'n caniatáu ar gyfer darparu yn drydyddol, a thrwy ddysgu hyblyg yn seiliedig ar waith.

14. Argymhellwn y dylid comisiynu Cyngor Gofal Cymru i adeiladu ar y strategaeth gweithlu bresennol ac uchelgeisiau *Adeiladu Dyfodol Mwy*

Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn datblygu'r strategaeth gweithlu ymhellach a chynnwys y canlynol:

- cynnal cymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd
- hyrwyddo'r defnydd o lwybrau arbenigol a dilyniant o fewn cymwysterau presennol ymhellach
- datblygu'r Rhestr o Gymwysterau Gofynnol ymhellach i gynnwys yr holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, lefelau cymwysterau a dulliau cyflawni a'r cymwyseddau gorfodol craidd cyffredin a nodwyd (i gynnwys ymdrechion i ddylanwadu ar raglenni gradd blynyddoedd cynnar addysg uwch)
- pennu dyhead i bob lleoliad AGPC gael ei arwain gan ymarferydd sy'n meddu ar gymhwyster lefel 6 ond yn y tymor byr argymhellwn y dylid cymryd camau interim (argymhelliad 15 isod)

15. Argymhellwn y dylid adolygu'r rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bob lleoliad newydd ei gofrestru o 2018 ymlaen, a phob lleoliad o 2020 ymlaen, ac eithrio gwarchodwyr plant unigol sy'n gofalu am lai na 12 o blant, ofyn am gymwysterau arwain priodol ar lefel 5.
16. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy o faint (sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 20 o blant neu fwy) gael rheolwr uwchrifol, sydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr hwnnw feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol⁴⁴ (Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant - llwybr Rheoli) erbyn 2020 a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.
17. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau, erbyn 2022, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymarferydd AGPC a gaiff eu cynnwys mewn cymarebau wedi'u rheoleiddio, feddu ar gymwysterau priodol hyd at lefel 3, neu uwch, neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster seiliedig ar waith ar lefel 3, i'w gyflawni o fewn cyfnod o dair blynedd. Dylai hyn gynnwys gwarchodwyr plant (ond dylid caniatáu tair blynedd o adeg eu cofrestriad cychwynnol iddynt gyflawni hyn).

18. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau er mwyn sicrhau bod ymarferwyr gwasanaethau Cyfnod Sylfaen (mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir) neu Dechrau'n Deg a ariennir a gaiff eu cynnwys mewn cymarebau, yn meddu ar gymwysterau priodol hyd at lefel 3 o 2020 ymlaen, a'u bod yn ymgymryd ag o leiaf bum niwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.
19. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno llwybr newydd, yn seiliedig ar gymhwysedd, o 2017 ymlaen, ar gyfer arbenigwyr yn y blynyddoedd cynnar, sy'n arwain at SAC. Byddai hwn yn arbenigo mewn datblygiad plentyn o enedigaeth hyd at saith oed, a'r Cyfnod Sylfaen. Dylid gwneud hyn ochr yn ochr â datblygu cymhwyster arwain AGPC ar lefel 6 trwy ddysgu yn seiliedig ar waith.

Gan adeiladu ar y cynigion a nodwyd yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*, dylid datblygu strategaeth gweithlu glir a chydlynol i bob ymarferydd ym maes y blynyddoedd cynnar erbyn 2015. Yn ogystal â'r materion ar gyfer Cyngor Gofal Cymru a nodwyd yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*, dylai'r strategaeth gynnwys;

- datblygu cod ymarfer ar gyfer y gweithlu AGPC;
- cysondeb teitlau a disgrifiadau swyddi;
- datblygu cynllun i bennu lefel 3 fel y cymhwyster gofynnol ar gyfer gwasanaethau AGPC;
- integreiddio'r cymwysterau diploma lefel 5 i mewn i rolau a strwythurau arwain a rheoli;
- datblygu'r fframwaith cymwysterau ar gyfer y gweithlu ymhellach er mwyn cynnwys cymwysterau cymhwysedd lefel uwch hyd at lefel 6;
- datblygu set o gymwyseddau sy'n seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y mae'n rhaid i arweinwyr feddu arnynt ar draws y sector mewn lleoliadau a gynhelir ac nas cynhelir

- hyrwyddo'r canllawiau presennol ar lwybrau cymwysterau ac arbenigeddau yn y sector ymhellach.

8. Asesiad

Y Sefyllfa Bresennol

8.1 Canfu Adolygiad Llywodraeth Cymru o Adnoddau Asesu Plant yn y Blynyddoedd Cynnar⁴⁵ fod plant ifainc yng Nghymru yn derbyn gofal ac yn dysgu mewn llawer o leoliadau gwahanol, pob un ohonynt â nodau, cyllid, adnoddau, lefelau staffio a gweithdrefnau rheoli ansawdd gwahanol. Yn ôl y disgwyl, mae hyn yn arwain at ystod eang o ymarfer, yn enwedig o ran dulliau a safonau asesu datblygiad plant.

Tystiolaeth

8.2 Canfu'r Adolygiad o Adnoddau Asesu mai ychydig iawn o adnoddau a ddefnyddir yn gyffredinol gyda phlant. Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) a phob proffesiwn iechyd yn defnyddio ei adnodd(au) asesu dewisol ei hun. Yn yr un modd, ac eithrio lleoliadau Dechrau'n Deg, mae lleoliadau AGPC yn defnyddio ystod eang o adnoddau asesu, naill ai rhai masnachol neu rai a ddatblygwyd yn lleol neu'n fewnol. Ar ôl i'r gofyniad i ddefnyddio Proffil Asesu Datblygiad Plentyn (CDAP) ar gyfer asesiadau sylfaenol cychwynnol gael ei dynnu'n ôl, mae ysgolion wedi dychwelyd i ddefnyddio cynlluniau asesu sylfaenol cychwynnol cymeradwy blaenorol, neu maent yn dibynnu fwyfwy ar adnoddau asesu masnachol sy'n cynhyrchu data dibynadwy a safonedig.

Materion

8.3 Mae'r diffyg cysondeb hwn (a nodir ymhellach yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*) yn arwain at broblemau wrth bontio lle nad yw ymarferwyr mewn un lleoliad o bosibl yn ymddiried yn y data ar gynnydd plentyn unigol nac yn deall neu'n gallu dadansoddi'r data'n effeithiol pan fydd y plentyn yn symud o un lleoliad i'r llall. Gall hyn gael effaith negyddol ar y plentyn ac mae'n arwain at y canlynol:

- diffyg rhannu gwybodaeth neu rannu gwybodaeth yn rhannol - nid yw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn gallu cael gafael ar yr un wybodaeth;

- anawsterau i deuluoedd o ran deall cynnydd a datblygiad eu plentyn;
- llai o allu gan deuluoedd i gefnogi datblygiad eu plentyn yn effeithiol a chyfrannu at ei broffil datblygu;
- colli cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar;
- colli cymorth ac ymyriadau ar ôl i blentyn symud;
- sefyllfa lle nad oes unrhyw set ddata gymaradwy gyson i wneuthurwyr penderfyniadau ei dadansoddi wrth asesu effeithiolrwydd polisi.

8.4 Bydd y cymhlethdodau hyn yn cael effaith arbennig o negyddol ar deuluoedd y mae eu plant yn mynychu mwy nag un lleoliad ar yr un diwrnod, er enghraifft, ysgol a gofal cofleidiol. At hynny, gall y plant sydd fwyaf agored i niwed a'r rheini ag anghenion cymhleth a all fod yn manteisio ar ymyriadau arbenigol, (e.e. therapi lleferydd ac iaith), wynebu mwy o anfantais os nad yw'r ymarferwyr sy'n eu cefnogi mewn lleoliadau arbenigol a chyffredinol yn defnyddio meini prawf asesu cyffredin cychwynnol.

8.5 Mae dull asesu cyffredin yn cynnig cyfle i gasglu data hydredol y gellir eu dadansoddi er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd camau gwahanol o addysg a'u heffaith ar ddeilliannau. Mae'r data hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru er mwyn ei galluogi i fesur effeithiolrwydd polisi mewn ffordd effeithlon a chost-effeithiol. Nid ymchwil academaidd ysbeidiol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddangos llwyddiant camau gwahanol a'u cyfraniad at wella deilliannau, gan gynnwys canlyniadau PISA. Mae'r adroddiad gwerthuso diweddaraf ar Dechrau'n Deg⁴⁶ hefyd yn nodi'r anhawster wrth asesu ansawdd cyffredinol darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg oherwydd diffyg data canolog wedi'u casglu gan ddefnyddio adnodd safonedig. Byddai set ddata genedlaethol effeithiol yn galluogi asesiad mwy ystyrlon o effeithiolrwydd ac yn nodi polisi ac ymarfer angenrheidiol ym maes plentyndod cynnar.

8.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r *Rhestr o Sgiliau Datblygol* fel cynllun asesu i blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg (ond nid yw'n cael ei defnyddio gan bawb). Er y gall y rhestr hon fod yn adnodd effeithiol, a

phoblogaidd ymhlith ymarferwyr, mae'r gost gysylltiedig yn debygol o olygu na ellir ei chyflwyno ar draws y sector cyfan.

Argymhellion

Croesawn y gwaith o ddatblygu Adnodd Asesu 'gwnaed yng Nghymru' ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel y'i nodir yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'.

20. Argymhellwn y dylai'r cynigion fynd ymhellach ac y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith i ddatblygu adnodd asesu cyffredin parhaus a chynhwysfawr sydd am ddim i'w ddefnyddio (a hwnnw'n gyffredin ar draws proffesiynau, lleoliadau, asiantaethau a sectorau) i'w ddefnyddio ar draws lleoliadau plentyndod cynnar sy'n darparu gwasanaethau i blant rhwng 0 a 7 oed, gan fodloni'r meini prawf canlynol:

- yn syml ac yn hawdd i ymarferwyr ei ddefnyddio;
- yn dechrau adeg cofnodion cyn geni ac yn ymestyn o gofnodion cynenedigol ymlaen fel cofnod holistaidd o flynyddoedd cynnar plentyn
- yn casglu gwybodaeth sy'n hawdd i rieni ei deall a chyfrannu ati;
- yn caniatáu i bryderon gael eu nodi'n gynnar fel y gellir targedu adnoddau'n fwy effeithiol i ddiwallu anghenion;
- yn hawdd ei drosglwyddo rhwng lleoliadau, ac sy'n cefnogi proses bontio hapus a llwyddiannus rhwng lleoliadau;
- yn cael ei gymedroli, ei gefnogi a'i brofi o ran ansawdd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- yn casglu data mewn ffordd sydd â'r potensial i alluogi ymarferwyr iechyd a'r Arolygiaeth unedig newydd i adnabod tueddiadau lleol a chenedlaethol er mwyn llywio'r gwaith o lunio polisi a galluogi'r broses o gynllunio'r gweithlu i ddigwydd yn effeithiol

9. Rheoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed

- 9.1 Gofynnwyd i'r Grŵp ystyried a ddylid gwneud unrhyw newid i'r broses o reoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed. Ar hyn o bryd, mae darpariaeth o'r fath wedi'i heithrio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
- 9.2 O safbwynt hawliau plant, mae'n anodd iawn cyfiawnhau'r sefyllfa fympwyol - ond pragmataidd - lle nad yw'n ofynnol i rai gwasanaethau AGPC sy'n gweithredu am ddwy awr neu lai, neu sy'n darparu gwasanaethau i blant dros wyth oed, gofrestru neu gael eu harolygu. Mae plant yn y lleoliadau hyn yn haeddu gwasanaeth o'r un ansawdd ac mae gan deuluoedd sy'n defnyddio'r darpariaethau hyn yr hawl i gael dull cymesur o reoli ansawdd a sicrwydd mewn perthynas â diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.
- 9.3 Un o ganlyniadau'r sefyllfa bresennol yw bod rhieni yn aml yn drysu am y broses o reoleiddio gofal plant ac yn gwneud dewisiadau am ddarpariaeth yn seiliedig ar dybiaethau bod pob lleoliad wedi'i gofrestru ac yn cael ei arolygu, bod ysgolion a staff addysgu yn gyfrifol am y ddarpariaeth ar safle'r ysgol, ei bod yn ofynnol i bob darpariaeth gyrraedd yr un safon o ofal a bod yr holl ddarpariaeth yn ddigon diogel ac wedi'i yswirio'n ddigonol.
- 9.4 Canlyniad arall yw nad yw'r rheini sy'n defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru'n gallu hawlio Efen Gofal Plant y Credyd Treth Gwaith nac yn gallu hawlio gostyngiadau treth drwy gynllun Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau pan gyflwynir Credyd Cynhwysol a'r Gofal Plant Di-dreth a gynigir ar hyn o bryd gan Lywodraeth San Steffan o 2015 ymlaen. Yn Lloegr, mae cynllun cymeradwyo llai manwl i blant dros 8 oed wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ond ceir cynigion ar hyn o bryd i leihau lefel y gofynion i ddarparwyr gynnal 'cofrestr diogelwch plant' newydd. Mae'r sefyllfa yng Nghymru felly'n anghyson a gellid ystyried ei bod yn annheg.
- 9.5 Fodd bynnag, rydym wedi ystyried ein holl argymhellion yng ngoleuni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn y cyd-destun

hwnnw, mae'n amlwg yn anghywir, ac yn debygol o gael yr effaith andwyol fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi ac a all wynebu anfantais bellach, i ddefnyddio arian cyhoeddus i gefnogi lleoliadau lle nad oes gan awdurdodau cyhoeddus unrhyw fesur ystyrlon o ddiogelwch y ddarpariaeth honno. Ni allwn ychwaith asesu i ba raddau y gall y sefyllfa bresennol fod yn anfanteisiol i deuluoedd yng Nghymru gan nad oes unrhyw ddata dibynadwy ar gael am nifer y lleoliadau heb eu cofrestru nac am nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliadau hyn, neu lleoliadau sy'n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth heb ei chofrestru, sy'n cynnig 'darpariaeth gofal dydd drwy'r drws cefn'.

- 9.6 Dylid hefyd gydnabod y gellir darparu gwasanaethau lluosog am gost isel i rieni ond gall cost gofalwyr anghyson a darpariaeth luosog fod ar draul y plentyn. Mae'n sefyllfa a allai fod yn niweidiol i blentyn gyda'r effaith yn cael ei themlo gan y plant hynny sydd eisoes yn wynebu anfantais ac sydd fwyaf angen cymorth arnynt.
- 9.7 Ceir goblygiadau sylweddol i wasanaethau a rheoleiddwyr wrth gofrestru a rheoleiddio'r holl wasanaethau a chynnig darpariaeth deg sy'n cyrraedd y safonau gofynnol i bob plentyn, ond ni ddylai'r heriau fod yn amhosibl eu goresgyn. Nid ydym yn dymuno argymell mesurau costus nac anghymesur ond rydym yn argyhoeddedig bod mesur o reoli yn hanfodol. Ar hyn o bryd, caiff lleoliadau heb eu cofrestru weithiau eu cefnogi ar sail wirfoddol er mwyn sicrhau bod lefel o ansawdd a diogelwch ar waith ond dywedir bod llawer ohonynt heb eu cefnogi i raddau helaeth a gallant weithredu ar eu pen eu hunain heb unrhyw fesurau diogelwch.
- 9.8 Dylid cydnabod hefyd, er eu bod yn cynnig darpariaeth y mae angen dybryd amdani, mewn rhai ardaloedd gall bodolaeth gwasanaethau heb eu cofrestru, cost isel ac o bosibl ansawdd isel fygwth cynaliadwyedd gwasanaethau cofrestredig o ansawdd uwch.
- 9.9 Ar gamau cychwynnol yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gofynnwyd i'r Grŵp ystyried argymell y dylai'r darpariaethau hyn gael eu 'datgan' yn hytrach na'u 'cofrestru' o dan reoliadau. Fodd bynnag, canfu ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid gred gadarn (roedd dros 98% o ymatebwyr o'r farn y dylai pob

darpariaeth gael ei chofrestru) bod gan bob plentyn yr hawl i gael y mesurau diogelwch sy'n gysylltiedig â rheoleiddio ac arolygu pan fyddant yn derbyn gofal y tu allan i'r teulu.

Argymhelliad

21. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad gofrestru â'r Arolygiaeth AGPC unedig (gweler tudalen 42) a'i fod yn gorfod bodloni gofynion cymesur o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu.

Opsiynau i'w hystyried

- gofyn i leoliadau dalu ffi gofrestru er mwyn cefnogi costau
 - dylai pob lleoliad arddangos Tystysgrif Cofrestru
 - dylai tystysgrifau cofrestru arddangos gwybodaeth sylfaenol am y lleoliad (gan gynnwys oriau agor, y grŵp oedran y darperir ar ei gyfer, manylion yswiriant a lefel y gyfundrefn arolygu y mae'r ddarpariaeth yn ddarostyngedig iddi) a chyswllt gwybodaeth am fesurau amddiffyn, a gofynion rheoleiddio ac arolygu
22. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am statws y math o wasanaeth a'r ddarpariaeth drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i wneud penderfyniadau deallus am ofal plant.

10. Casgliadau

- 10.1 Mae'n amlwg bod strwythurau presennol yn cynnal y gwahaniaeth diwylliannol di-fudd hwn rhwng yr elfen ofal o waith gyda phlant ifanc a gweithgarwch a ystyrir yn 'gwbl addysgol'. Nod ein hargymhellion yw sicrhau bod gennym ymagwedd gyson sy'n seiliedig ar anghenion y plentyn at ddysgu a datblygiad plant ar draws gwasanaethau plentyndod cynnar yng Nghymru.
- 10.2 Gwelwyd mwy o gynnydd yn y galw am ofal plant dros y degawd diwethaf a fodlonwyd gan amrywiaeth o ddarpariaeth a gwaith dilynol ond angenrheidiol i ddiwygio cyfundrefnau arolygu. Dywedir bod hyn wedi arwain at bryderon cynyddol am yr hyn a ystyrir yn system arolygu anghyson. Bellach ceir sefyllfa lle mae addasu darpariaeth yn gyson yn dod yn anhydrin ac aneffeithiol. Yn hanesyddol, darparodd y sector a gynhelir (ysgolion) ar gyfer plant pump oed a throsodd a darparodd y sector nas cynhelir (meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, gwarchodwyr plant ac ati) ofal yn unig. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi newid, gyda darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn dechrau o ddwy oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a thair oed mewn ardaloedd eraill, gydag egwyddorion addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen yn cael eu dilyn gan bawb. Ni welwyd unrhyw newid sylweddol o ran dull gweithredu yn y system addysg yn y sector a gynhelir sy'n ymateb yn llawn i'r anghenion gwahanol sydd gan blant cyn cyrraedd oed ysgol statudol, ac mae'r sector nas cynhelir yn cael trafferth darparu addysg gynnar o ansawdd y mae gan blant yr hawl i'w chael.
- 10.3 Mae'r sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir yn dilyn eu fframweithiau perthnasol eu hunain at ddibenion rheoleiddio ac arolygu. Nid yw'r fframweithiau hyn yn ddigon cydnaws i weithio ochr yn ochr â'i gilydd i ddarparu'r profiadau a'r deilliannau cryfaf i blant. Mae'r ffaith nad ydynt yn gwbl gydnaws yn dangos y disgwyliadau a'r mesurau croes a osodir ar ddarparwyr, ond yn bwysicach, yn rhoi rheswm i gwestiynu p'un ai anghenion holistaidd y plentyn yw prif ffocws y fframweithiau ac yn amlygu'r rhaniad sylfaenol mewn darpariaeth.

- 10.4 Nid yw'r anghysondeb hwn yn ddelfrydol o bell ffordd - ac mae'r anghysondebau a nodwyd o fewn pob arolygiaeth o ran y ffordd y dylai egwyddorion pob fframwaith gael eu cymhwyso a'u monitro yn gwaethygu'r sefyllfa.
- 10.5 Ar hyn o bryd, mae nifer o fframweithiau eraill yn bodoli i fonitro a llywio profiadau plant yng Nghymru o ran iechyd, diogelwch, lles a chwarae.
- 10.6 Rydym wedi trafod cyfundrefn reoleiddio ac arolygu unedig a newidiadau i reoliadau strwythurol a fydd yn arwain at wella ansawdd, ond heb fesurau ategol eraill fel diffiniadau cyson o ansawdd, cynlluniau sicrhau ansawdd a datblygiad proffesiynol parhaus, awgryma tystiolaeth na fyddant yn ddigon i wella ansawdd darpariaeth AGPC, yn enwedig i'r plant ieuengaf.
- 10.7 Dywedir bod y sefyllfa bresennol o gyfrifoldebau rheoleiddio ac arolygu rhanedig yn peri dryswch a diffyg ymddiriedaeth ac yn cyfyngu ar allu darparwyr AGPC i bennu nodau a gydnabyddir yn ddibynadwy fel camau tuag at wella ansawdd. Er mwyn lleihau pryder mewn perthynas â disgwyliadau anghyson o fewn ac ar draws arolygiaethau unigol a gwasanaethau cynghori, mae darparwyr a staff cynghori yn y sector AGPC yn galw am fwy o eglurder am rolau a chyfrifoldebau a chysondeb wrth ddehongli ansawdd.
- 10.8 Yr argymhelliad pwysicaf a wnaed gennym felly yw y dylid creu Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar. Mae angen iddo fod yn hygyrch i bob gwasanaeth, yn ddigon clir i alluogi hunanwerthusiad cadarn a chynnig cyfle i gefnogi gwelliannau ar draws y sector.
- 10.9 Dylai'r nod o ddiwallu anghenion pob plentyn fod wrth wraidd y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar, dylai fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o ddatblygiad plant, dylai fabwysiadu'r holl egwyddorion a'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn ymyrryd yn gynnar a defnyddio asesiadau fel adnodd ymarferol i roi cymorth cydadferol yn ogystal â gallu ymestyn y plant mwyaf disglair ac abl ble bynnag y byddant yn defnyddio'r ddarpariaeth. Dylai fod yn gadarn ac yn seiliedig ar y

dystiolaeth gryfaf o'r ffordd y mae plant yn datblygu'n fwyaf effeithiol yn eu blynyddoedd ffurfiannol.

- 10.10 Bydd cynllun y Fframwaith Ansawdd Sengl yn annog gwelliant parhaus ar draws y sector ac yn cael ei ddeall a'i fabwysiadu gan bob math o leoliad sy'n darparu addysg a gofal plentyndod cynnar. Bydd y Fframwaith yn annog darpariaeth gyson o ansawdd uchel yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir, gan arwain at y deilliannau cryfaf i blant. Daw datblygiad plant gwell, yn seiliedig ar gerrig milltir diffiniedig, yn ffocws ar gyfer mesurau ansawdd. Bydd y fframwaith yn darparu adnodd i fesur newidynnau proses a ffactorau strwythurol y gellir eu defnyddio i wneud dyfarniadau cytbwys a hyddysg am ansawdd.
- 10.11 Ystyrir bod angen bywyd cartref hapus a diogel ar bob plentyn. Mae angen profiad hapus a diogel arnynt hefyd yn eu bywyd y tu allan i'r cartref lle y gallant barhau i ddysgu, meithrin eu sgiliau cymdeithasol a'u gwydnwch emosiynol a datblygu'n naturiol drwy chwarae, her, cydberthnasau newydd a phrofiadau ystyrion. Mae'n rhaid iddynt hefyd weld eu bod yn rhan o gymuned a'u bod yn ddysgwyr medrus a all lwyddo o fewn rhwydwaith cymorth helaeth a chydawns. Os gallwn ddarparu amgylchedd hapus, cymdeithasol, cynnes a gofalgwr i bob plentyn lle y gall ddatblygu yn ystod ei flynyddoedd ffurfiannol hanfodol, lle mae'r holl ddarpariaeth yn ceisio cyflawni'r un disgwyliadau ac ethos o ran ansawdd ym mha leoliad bynnag y bydd ei rieni'n ei ddewis, yna mae'r llwyfan wedi ei baratoi ar gyfer dysgu gydol oes wrth iddo symud drwy gamau bywyd. Y nod yw cyrraedd pwynt lle nad yw ansawdd y broses o arolygu darpariaeth a gynhelir ac nas cynhelir ar wahân mwyach ond yn gontinwrm trosglwyddadwy, o'r cyfnod cyn geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- 10.12 Bydd yr argymhelliad i gyflwyno Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC yn gam cyntaf penodol, realistig a chosteffeithiol tuag at argymhellion hirdymor yr adroddiad hwn o arolygiaeth sengl, dulliau gwell o gydweithio a datblygu'r gweithlu. Bydd yn rhoi llwyfan i'r ddwy arolygiaeth a phob rhanddeiliad ddechrau gweithio tuag at ganlyniadau cyffredin sy'n mynd i'r afael ag addysg

a gofal. Bydd y broses o gydweithio wrth ddatblygu fframwaith newydd yn darparu'r fforwm i baratoi'r llwyfan ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn y dyfodol, cyfle i ystyried safbwyntiau croes a chyfnod o fyfyrion dwys a gwneud penderfyniadau am y ffordd orau o ddiwallu anghenion pob plentyn drwy ddull holistaidd a fydd yn helpu plant i bontio'n ddiraferth rhwng lleoliadau.

- 10.13 Os bydd datganiad Llywodraeth Cymru yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair*, sef bod y ddeddfwriaeth bresennol yn atal dull arolygu sengl yn wir o hyd, yna bydd Fframwaith Ansawdd Sengl o leiaf yn darparu fframwaith ymbarél ar draws y ddarpariaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion y plentyn wrth wraidd darpariaeth o ansawdd, bod pob darparwr yn rhannu ethos ac iaith gyffredin a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n unol â phrotocolau cyffredin. Bydd y Fframwaith Ansawdd Sengl ei hun yn cefnogi'r gwaith o greu system gwerth a rennir sydd, o leiaf, yn pontio'r rhaniad yn y broses arolygu.
- 10.14 Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar arfer dda bresennol ac yn creu fframwaith o arfer orau y gellir fforddio ei weithredu yn y tymor byr a'i gynnal yn y tymor hir. Bydd iaith a rennir a disgwyliadau a rennir. Bydd hyn yn arwain at ddatblygiad naturiol yn y gweithlu, ac yn dechrau uno'r ddwy ddarpariaeth wrth iddynt weithio tuag at fframwaith cyffredin.
- 10.15 Bydd strategaethau cydweithio yn datblygu'n brotocolau rhannu gwybodaeth ac yn iaith broffesiynol a rennir rhwng y gweithluoedd - a fydd, yn y pen draw, yn creu'r ddarpariaeth holistaidd ddymunol a throsglwyddadwy sydd ei hangen ar randdeiliaid - yn enwedig rhieni, lle y gellir "rhannu arfer da o ran rhannu gwybodaeth a rheoli trefniadau pontio effeithiol" (*Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*, tudalen 40).
- 10.16 Ochr yn ochr â hyn, mae angen deall beth fydd yn ofynnol gan y gweithlu a beth fydd cyfyngiadau a pharamedrau'r rolau gwahanol. O safbwynt teuluoedd, daw'r ddarpariaeth yn fwy integredig a daw "addysg ffurfiol" yn rhan o'r ddarpariaeth gofal plant ehangach, lle mae'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC yn sicrhau bod profiad y plentyn yn rhan o "wasanaeth cyfan i deuluoedd" a lle y gall yr ysgol, yn y pen draw, ddod yn ganolbwynt ar gyfer darpariaeth gofal plant gymunedol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni nod

Llywodraeth Cymru sef "gwella trefniadau pontio drwy ddulliau gweithredu cyfnod cyfan ac ysgol gyfan" a "datblygu canllawiau ar weithio'n effeithiol ar draws cyfnodau" (*Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*, tudalen 40).

- 10.17 O safbwynt y darparwr, y ddarpariaeth gofal plant a gynigir fydd gwasanaeth cysylltiedig, gydag iaith broffesiynol, disgwyliadau a gofynion a rennir. Bydd hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo model ariannol hyfyw sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ond, yn bwysicach, yn diwallu anghenion holistaidd pob plentyn ar bob adeg o'u dydd, boed hynny mewn darpariaeth a gynhelir neu ddarpariaeth nas cynhelir.
- 10.18 Er bod y sector nas cynhelir yn cael ei arolygu'n amlach nag ysgolion ar hyn o bryd - fel arfer bob blwyddyn oni bai ei fod yn cael ei ariannu ar gyfer lleoedd Cyfnod Sylfaen ac yn dod yn destun arolygiadau bob chwe blynedd ychwanegol gan Estyn, dim ond unwaith bob chwe blynedd y caiff ysgolion eu harolygu, gyda ffocws gwahanol iawn. Mae mwy o bwyslais a gwerth yn dueddol o gael eu rhoi ar ganlyniadau'r arolygiadau gan Estyn o'r sector a gynhelir, sy'n canolbwyntio ar newidynnau addysg a phroses ffurfiol - na'r arolygiadau gan AGGCC, y mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac felly, nes i'r Fframwaith Dyfarnu Ansawdd gael ei gyflwyno yn ddiweddar, ffactorau strwythurol. At hynny, ystyrir bod y sector nas cynhelir yn gogwyddo tuag at yr agweddau hynny o ofal plant a werthfawrogir yn llai, megis gofal a lles a bod y sector a gynhelir yn canolbwyntio ar addysg ffurfiol. Er mwyn i'r sector symud i ffwrdd oddi wrth y rhaniad artiffisial hwn ym maes datblygiad plant, tuag at y dull gweithredu holistaidd dymunol y cytunwyd arno, yna mae'n rhaid ail-addasu er mwyn symud tuag at safonau proffesiynol a rennir lle y caiff gofal a lles eu parchu, a'u gwerthfawrogi fel rhan annatod o'r cyfleoedd dysgu a datblygu/addysgol gorau.
- 10.19 Nid yw'n ymarferol tybio y gall y gweithlu presennol yn y sector nas cynhelir weithio tuag at yr un safonau proffesiynol â staff addysgu mewn ysgolion yn syth, gan nad yw'r lefelau presennol o gymwysterau gofynnol yn cyfateb eto.

Fodd bynnag, gan nad yw athrawon yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn ystyried gofal eu disgyblion fel rhan o'u cylch gwaith yn yr un ffordd â'r sector nas cynhelir, bydd gofyn i'r gweithlu cyfan ailaddasu a datblygu'n broffesiynol er mwyn i'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC fod yn effeithiol.

10.20 Felly, rhaid i'r Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC gynnwys gofyniad i ddatblygu'r gweithlu o fewn ei gylch gwaith (gweler Adran 7) gan osgoi'r problemau a welwyd yn Lloegr. Er mwyn i'r Fframwaith fod yn effeithiol, rhaid iddo ymgorffori dull fesul cam o greu gweithlu arweinyddiaeth o raddedigion yn y sector nas cynhelir, lle y gall y rhai sy'n ymuno â'r sector weithio o lefel 2 a lefel 3 tuag at gymhwyster lefel 6 drwy lwybr addysgu yn y gweithle sy'n llwybr o ansawdd, a gydnabyddir fel un sy'n cyfateb i gymhwyster addysgu mewn sectorau a gynhelir yn ogystal â rhai nas cynhelir. Bydd y gydnabyddiaeth gynyddol i Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) - sy'n mapio cymwysterau galwedigaethol ac academaidd yn gyfartal yn ôl lefel ac sy'n ddigon hyblyg i'w ddefnyddio ym mhob lleoliad a cham gyrfaol - yn ffactor hollbwysig wrth sefydlu cymwysterau cydradd mewn lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir yn y tymor hwy. Bydd hyn yn monitro cynnydd tuag at y nod a amlinellir yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair i ddatblygu'r dull cywir o ymdrin â "lefelau cymwysterau gofynnol, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa, cytuno ar y camau nesaf a datblygu cynllun 10 mlynedd i'r gweithlu" (tudalen 47).

10.21 Yn y tymor hwy, dylai'r fframwaith cymwysterau gynnwys Statws Athro Cymwysedig cydnabyddedig ar gyfer y sector gofal ac addysg plentyndod cynnar boed yn gyflogedig yn y sector a gynhelir neu'r sector nas cynhelir. Bydd cymwysterau gofynnol ar gyfer cymorthyddion yn y sector a gynhelir hefyd yn cael eu hegluro a rhaid i'r fframwaith ddarparu dehongliad cenedlaethol a chyson o'r Cyfnod Sylfaen.

10.22 Ymdrinnir â mater Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws y sector os yw anghenion pob plentyn, fel yr argymhellir, wrth wraidd y ddarpariaeth. Bydd hyn yn gofyn am ddull wedi'i deilwra o ymdrin â phob plentyn, wedi'i

grisialu o fewn y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC. Golyga hyn y gall rhieni a rhanddeiliaid fod yn hyderus y diwellir anghenion unigol pob plentyn ym mhob lleoliad gofal plant ac yn ystod y broses bontio. Bydd angen gweithio ar y cyd â'r systemau Tîm o Amgylch y Plentyn a'r Teulu a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r effaith lawn a sicrhau y caiff y mesurau ansawdd priodol eu cynnwys yn y fframwaith.

- 10.23 O ganlyniad, os gweithredir y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC yn briodol, gellir sicrhau pob teulu sydd â phlant ag anghenion ychwanegol y caiff eu plentyn hawl gyfartal i ddarpariaeth o ansawdd, ni waeth pa leoliad a ddewisir gan y rhieni na pha lefel o gymorth y gall fod ei hangen ar eu plentyn.
- 10.24 Dylai fod gan Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC Safonau Meincnod o Ansawdd fesul cam ar lefelau gwahanol tuag at gyflawni Arfer Orau. Bydd hyn yn sicrhau bod cymhelliant a fframwaith ar gyfer gwella'r ddarpariaeth yn barhaus. Byddai nifer y lefelau a'r disgrifiadau lefel yng nghynllun y Fframwaith Ansawdd Sengl yn destun ymchwiliad cydweithredol rhwng rhanddeiliaid, yn gyntaf er mwyn nodi a chytuno ar Arfer Orau a gweithredu'r camau priodol wedyn tuag at ei gyflawni.
- 10.25 Bydd Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC yn gadarn a chlr fel y gall darparwyr barhau i hunanasesu eu darpariaeth eu hunain. Bydd hyn hefyd yn annog darparwyr i weithio tuag at lefelau uwch yn y Fframwaith ac wrth i'r arweinyddiaeth ddod yn fwy hyderus, caiff y gweithlu ei ddatblygu ymhellach a daw yn fwy cymwys gan arwain at fwy o gydamseru rhwng darpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir.
- 10.26 Yn y pen draw, bydd y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC yn gyfrwng i ddatblygu System Gwerth newydd i hyrwyddo'r sector. Bydd yn cynnwys nifer o lefelau ansawdd a fydd yn atal difaterwch o ran darpariaeth oherwydd gall y newidynnau o ran proses a fwynheir gan y plentyn i ddiwallu ei anghenion unigol gael eu gwella a'u hymestyn bob amser yn yr un modd ag y gall canlyniadau a ffactorau strwythurol y ddarpariaeth a gyflawnir.

10.27 Nawr yw'r amser i gymryd cam yn ôl, i fyfyrion ac edrych o'r newydd ar y ddarpariaeth i ddarparu Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC sy'n rhesymegol, sy'n gweithio i'r sector yn ei gyfanrwydd yng nghyd-destun Cymru heddiw ac sy'n sicrhau bod anghenion y plentyn yn greiddiol iddo.

Atodiad 1: Crynodeb o'r argymhellion

Cyhoeddiad	Rhif	Crynodeb o'r Argymhelliad	Tudalen	Erbyn pryd
Fframwaith Ansawdd Sengl	1	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu Fframwaith Ansawdd Sengl newydd a thrylwyr ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (AGPC).	25	2015
	2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob ymarferydd a lleoliad yn cael canllawiau manwl ar Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC.	25	2016
	3	Rydym yn argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau cynghori cryf, effeithiol a chyson i bob lleoliad, yn iaith y lleoliad, er mwyn ceisio sicrhau mynediad cyfartal i wasanaeth o ansawdd i bob plentyn a theulu.	25	2016
	4	Rydym yn argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r arolygiaeth(au) sicrhau mai'r safonau ansawdd i'w cyflawni adeg arolygiad yw'r rheini sy'n eglur yn Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC drwy broses a gaiff ei safoni a'i chymedroli. Dylai arolygwyr, ymgynghorwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau hefyd ddeall y disgwyliadau yn yr un modd yn union.	26	2016
	5	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Byrddau Rhanbarthol Addysg a Gofal Plentynod Cynnar ac yn rhoi cyfarwyddyd i'r Byrddau hyn, gan adeiladu ar gynigion consortia addysg Llywodraeth Cymru. Dylid sefydlu'r	26	2016

		Byrddau hyn i oruchwylio'r cyngor a'r cyfarwyddyd sy'n cael eu cynnig; coladu gwybodaeth am anghenion rhanbarthol i helpu i ddarparu gwasanaethau yn dda; bwydo gwybodaeth yn ôl i Fwrdd AGPC cenedlaethol Cymru gyfan, gan gyfrannu at system werthuso genedlaethol. Byddai'r Bwrdd AGPC yn ffordd o gyfleu gwybodaeth i'r llywodraeth ac oddi wrth y llywodraeth am ddatblygu, cynaliadwyedd, gwella a modelau arfer gorau'r sector.		
Rheoleiddio Gofal ac Addysg Plentynod Cynnar	6	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gosod un set o Reoliadau a Safonau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar ar sail Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC (gweler Adran 3) yn lle Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r elfennau hynny o'r Canllawiau ar gyfer Arolygu Ysgolion Cynradd a Lleoliadau nas Cynhelir (Deddf Addysg 2005) mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 7 oed ac iau.	31	2016
	7	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Safonau newydd ac yn drafftio canllawiau yng nghydestun Fframwaith Ansawdd Sengl AGPC.	32	2016
Arolygu Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar	8	Rydym yn argymhell bod y cydweithio rhwng AGGCC ac Estyn mewn lleoliadau nas cynhelir, y rhoddyd gwybod inni ei fod yn digwydd, yn cael ei ddatblygu ymhellach fel y gall arbenigedd AGGCC lywio'r gwaith o arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant o dan saith oed mewn lleoliadau a gynhelir. Dylai hyn gynnwys datblygu iaith gyffredin i'w defnyddio ar gyfer pob lleoliad sy'n darparu ar gyfer plant o dan saith oed, a galluogi Estyn i ddylanwadu ar farn AGGCC wrth adrodd ar y gofynion o ran	36	2014

		canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen.		
	9	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn deddfu ar gyfer un system arolygu, i ddisodli'r trefniadau arolygu deuo ¹ , gan ddisodli cyfrifoldebau presennol Estyn ac AGGCC am blant yn y blynyddoedd cynnar o'r flwyddyn 2016.	36	2016
Gweithio gyda'n Gilydd	10	Rydym yn argymhell bod y Prif Weinidog, ar lefel genedlaethol, yn ystyried neilltuo un gweinidog i fod yn gyfrifol am AGPC, yn cael ei gefnogi gan un adran.	40	2016
	11	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod gwasanaethau cynnal AGPC (fel gwasanaethau cynghori) yn cael eu darparu ar sail ranbarthol, yn hytrach nag ar lefel awdurdodau lleol (ar sail patrwm y consortia addysg rhanbarthol).	40	2016
	12	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddyblygu'r dull unedig o ddarparu AGPC er budd plant, teuluoedd a chymunedau.	40	2016
	13	Rydym yn argymhell bod y Fframwaith Ansawdd Sengl newydd ar gyfer AGPC yn cael ei weithredu ar draws y sector, a'i hybu fel canolbwynt cychwynnol ar gyfer cydweithio, gan annog safonau ansawdd, iaith a system werthoedd a rennir ar draws y proffesiwn.	40	2016
Y Gweithlu	14	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu Cyngor Gofal Cymru i adeiladu ar strategaeth	46	2015

		bresennol y gweithlu a'r uchelgais yn <i>Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant</i> i ddatblygu strategaeth y gweithlu ymhellach, fel yr amlinellir yn yr argymhellion llawn.		
	15	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rheoliadau yn cael eu diwygio er mwyn mynnu bod arweinwyr pob lleoliad a gofrestrir o'r newydd yn meddu ar gymwysterau lefel 5 priodol o 2018 ymlaen, ac arweinwyr pob lleoliad arall o 2020 ymlaen.	47	2018/20
	16	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy (a gofrestrwyd ar gyfer 20 o blant neu ragor) gael rheolwr ychwanegol. Dylai'r rheolwr hwnnw hefyd feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol ⁴⁷ (a bod wedi cwblhau modiwlau penodol ar arweinyddiaeth) erbyn 2020, a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.	47	2020
	17	Rydym yn argymhell bod pob ymarferydd AGPC sy'n cael ei gyfrif o fewn cymarebau a reoleiddir, yn meddu ar gymwysterau priodol hyd at lefel 3 neu uwch, neu'n gweithio tuag at gymhwyster dysgu yn y gwaith ar lefel 3, sydd i'w gwblhau o fewn cyfnod o dair blynedd. Dylai hyn gynnwys gwarchodwyr plant (er y dylid caniatáu cyfnod o dair blynedd iddynt gyflawni hyn, o'r adeg y maent yn cofrestru gyntaf).	47	2022
	18	Mewn gwasanaethau Cyfnod Sylfaen (mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir) neu wasanaethau Dechrau'n Deg a ariennir, rydym yn	47	2020

		argymell y dylai ymarferwyr sy'n cael eu cyfrif o fewn y cymarebau feddu ar gymwysterau lefel 3 priodol. Dylent hefyd gael o leiaf 5 diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn.		
	19	Rydym yn argymell bod llwybr newydd yn cael ei gyflwyno i ennill Statws Athro Cymwysedig, sy'n seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer arbenigwyr plant yn y blynyddoedd cynnar. Dylai hwn ganolbwyntio ar ddatblygiad plant o'r adeg y cânt eu geni nes eu bod yn saith oed, a'r Cyfnod Sylfaen. Dylai hyn ddigwydd ar y cyd â'r gwaith o ddatblygu cymhwyster arweinyddiaeth AGPC ar lefel 6, sy'n seiliedig ar ddysgu yn y gweithle.	47	2017
Asesu	20	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu datblygu dull cyffredin, parhaus a chynhwysfawr o asesu a fydd ar gael am ddim lle caiff ei ddefnyddio (dull a fydd yn gyffredin ar draws y proffesiynau, lleoliadau, asiantaethau a sectorau).	50	2015
Rheoleiddio gofal plant sy'n weithredol am lai na dwy awr neu ar gyfer plant dros wyth mlwydd oed	21	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl leoliadau gofrestru gyda'r Arolygiaeth Addysg a Gofal Plentynod Cynnar unedig a'u bod yn rhwym wrth ofynion cymesur o ran cofrestru, rheoleiddio ac arolygu.	53	2016
	22	Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am statws y math o wasanaeth a'r ddarpariaeth a gynigir drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod gan rieni ddigon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau doeth am	54	2014

		ofal plant.		
--	--	-------------	--	--

Atodiad 2: Crynodeb o argymhellion yn nhrefn y dyddiad gweithredu a argymhellir

Mater	Rhif	Crynodeb o'r Argymhelliad	Tudalen	Amserlen
Rheoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed	22	Rydym yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth am statws y math o wasanaeth a'r ddarpariaeth drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n ddigonol i wneud penderfyniadau deallus am ofal plant.	54	2014
Arolygu Addysg a Gofal Plentynod Cynnar	8	Argymhellwn y dylai'r gwaith ar y cyd y mae AGGCC ac Estyn yn ei wneud yn ôl y sôn mewn lleoliadau nas cynhelir gael ei ddatblygu ymhellach er mwyn galluogi Estyn i fanteisio ar arbenigedd AGGCC mewn perthynas â gofal ac i lywio'r gwaith o arolygu'r ddarpariaeth i blant dan 7 oed yn y lleoliadau a gynhelir. Dylai'r gwaith hwn gynnwys datblygu iaith gyffredin a ddefnyddir ar gyfer pob lleoliad (ar hyn o bryd, gall defnyddio geirfa arwain at gamddechongli o gofio bod Estyn yn gwneud defnydd penodol o rywfaint o derminoleg nad yw'n gymwys i AGGCC) sy'n darparu ar gyfer plant dan 7 oed ac y dylid ei datblygu er mwyn galluogi Estyn i lywio penderfyniadau AGGCC mewn perthynas ag adrodd ar ofynion deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen.	36	2014
Fframwaith Ansawdd Sengl	1	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu Fframwaith Ansawdd Sengl newydd a chadarn ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar.	25	2015

Y Gweithlu	14	Argymhellwn y dylai Cyngor Gofal Cymru gael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y strategaeth gweithlu bresennol ac uchelgeisiau <i>Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</i> er mwyn datblygu'r strategaeth gweithlu ymhellach fel y nodir yn yr argymhellion llawn.	46	2015
Asesiad	20	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r gwaith i ddatblygu adnodd asesu sydd am ddim i'w ddefnyddio, sy'n gynhwysfawr a pharhaus (ac sy'n gyffredin ar draws proffesiynau, lleoliadau, asiantaethau a sectorau).	50	2015
Fframwaith Ansawdd Sengl	8	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau manwl ar y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC ar gael i bob ymarferydd a lleoliad.	25	2016
	3	Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau cynghori cryf, effeithiol a chyson, yn iaith y lleoliad, i bob lleoliad mewn ymgais i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael yr un cyfle i gael mynediad at wasanaethau o ansawdd.	25	2016
	4	Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i'r arolygiaeth(au) sicrhau mai'r safonau ansawdd i'w cyrraedd mewn arolygiad yw'r rheini a nodir yn y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC drwy broses wedi'i safoni a'i chymedroli. Dylid meithrin dealltwriaeth gyffredin o ddisgwyliadau yn gyfartal ymhlith	26	2016

		arolygwyr, cynghorwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau.		
	5	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Byrddau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar Rhanbarthol a rhoi canllawiau i'r Byrddau hyn, gan adeiladu ar fodel consortia addysg Llywodraeth Cymru. Dylid rhoi'r Byrddau hyn ar waith er mwyn goruchwyllo'r cyngor a'r canllawiau a gynigir; casglu gwybodaeth am anghenion rhanbarthol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a bwydo gwybodaeth yn ôl i Fwrdd AGPC Cenedlaethol Cymru Gyfan, gan gyfrannu at system werthuso genedlaethol. Byddai'r Bwrdd AGPC yn gyfrwng i roi gwybodaeth i'r Llywodraeth a chan y Llywodraeth am ddatblygiadau yn y sector, cynaliadwyedd, gwelliant a modelau arfer gorau.	26	2016
Rheoleiddio Addysg a Gofal Plentynod Cynnar	6	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno un set o Reoliadau a Safonau Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yn seiliedig ar y Fframwaith Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC (gweler Adran 3) yn lle'r rheoliadau o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r elfennau hynny o'r Canllawiau ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Lleoliadau Nas Cynhelir (Deddf Addysg 2005) sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant saith oed ac iau.	31	2016
Rheoleiddio Addysg a Gofal Plentynod	7	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Safonau a chanllawiau newydd i'w drafftio o fewn cyd-destun y Fframwaith	32	2016


Cynnar		Ansawdd Sengl ar gyfer AGPC.		
Arolygu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar	9	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu ar gyfer un system arolygu yn lle cyfundrefnau arolygu deuol ¹ gan ddisodli cyfrifoldebau cyfredol Estyn ac AGGCC ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar o 2016.	36	2016
Cydweithio	10	Argymhellwn ar lefel genedlaethol y dylai'r Prif Weinidog ystyried neilltuo un cyfrifoldeb gweinidogol am AGPC wedi'i ategu gan un strwythur adrannol.	40	2016
	11	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cymorth AGPC (fel gwasanaethau cynghori) eu darparu'n rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel awdurdod lleol (ar sail patrwm y consortia addysg rhanbarthol).	40	2016
	12	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru arwain awdurdodau lleol i efelychu'r ymagwedd unedig at AGPC er budd gorau plant, teuluoedd a chymunedau.	40	2016
	13	Argymhellwn y dylai'r Fframwaith Ansawdd Sengl newydd ar gyfer AGPC gael ei weithredu ar draws y sector a'i hyrwyddo fel ffocws cychwynnol ar gyfer trefniadau cydweithio sy'n annog system a rennir yn ymwneud â safonau, iaith a gwerth proffesiynol.	40	2016

Rheoleiddio gofal plant sy'n gweithredu am lai na dwy awr neu i blant dros wyth oed	21	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad gofrestru gydag Arolygiaeth AGPC unedig a bodloni gofynion cymesur cofrestru, rheoleiddio ac arolygu.	53	2016		
Y gweithlu	19	Argymhellwn y dylid cyflwyno llwybr arbenigol plant yn y blynyddoedd cynnar newydd at Statws Athro Cymwysedig sy'n arbenigo mewn datblygiad plant o enedigaeth hyd at saith oed a'r Cyfnod Sylfaen. Dylid gwneud hyn ochr yn ochr â datblygu cymhwyster arweinyddiaeth AGPC lefel 6 dysgu seiliedig ar waith.	9	47	0 7	201
	15	Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff rheoliadau eu diwygio fel bod pob arweinydd lleoliad sydd newydd ei gofrestru yn meddu ar gymwysterau lefel 5 priodol o 2017 ymlaen, a bod arweinyddion pob lleoliad o 2020 ymlaen yn meddu arnynt.	47			2018/20
	16	Argymhellwn y dylai rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy o faint (sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 20 o blant neu fwy) gael rheolwr uwchrifol a'i gwneud yn ofynnol i'r rheolwr hwnnw feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol ¹ (gyda modiwlau arwain penodol) erbyn 2010 a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.	47			2020
	18	Argymhellwn y dylai ymarferwyr gwasanaethau Cyfnod Sylfaen neu wasanaethau Dechrau'n Deg a ariennir (mewn ysgolion a	47			2020


		lleoliadau nas cynhelir) a gaiff eu cyfrif o fewn cymarebau, feddu ar gymwysterau priodol i lefel 3 a dylent ymgymryd ag o leiaf 5 diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.		
	17	Argymhellwn y dylai pob ymarferydd AGPC a gaiff ei gyfrif o fewn cymarebau rheoledig feddu ar gymwysterau priodol i lefel 3 neu uwch neu ei fod yn gweithio tuag at gymhwyster dysgu yn y gwaith ar lefel 3 i'w gyflawni o fewn tair blynedd. Dylai hyn gynnwys gwarchodwyr plant (er y dylid caniatáu tair blynedd iddynt o'u cofrestriad cychwynnol i gyflawni hyn).	47	2022

Atodiad 3: Dull fesul cam o gyflawni canlyniadau a argymhellir


Y sefyllfa bresennol




Cam 1



Cam 2



Cam 3



Atodiad 4: Aelodau'r gweithgor

Rhiannon Crowhurst Mae Rhiannon yn athrawes hynod brofiadol ac yn bennaeth Ysgol Babanod Melin yng Nghastell-nedd. Mae ar secondiad ar hyn o bryd i Wasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol (RISIS) Cydweithrediad Rhanbarthol Canol Cymru De-orllewin Cymru.

Mae **David Dallimore** yn gweithio fel ymchwilydd annibynnol ac ymgynghorydd ym maes blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl gyrfa gynnar ym maes addysg awyr agored, gweithiodd David i elusen gofal plant genedlaethol yn cefnogi datblygiad y *Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol* gyntaf o 1998. Fel ymchwilydd ac ymgynghorydd annibynnol cefnogodd Weithgor Gofal Plant Llywodraeth Cymru ac ef oedd awdur yr adroddiad dilynol '*A Flying Start: Childcare for Children, Parents and Communities*'. Yn 2008, gweithiodd David ar ddatblygu '*Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc*' yng Nghymru a hefyd y *Cynllun Gweithlu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar* cyntaf. Ar gyfer Cyngor Gofal Cymru, cynhaliodd David ymchwil i'r Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn 2008, 2010 a 2012. Mae David hefyd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn darlithio ym Mhrifysgol Bangor ac mae wrthi'n ymchwilio i faterion yn ymwneud â dewis gofal plant anffurfiol yng Nghymru. Mae'n ymgynghorydd cyswllt ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant, Biwro Cenedlaethol y Plant a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru.

Mae **Siân Catryn Mary Davies** wedi bod yn Brif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru ers 2009. Cyn ymgymryd â'r rôl hon cafodd sawl swydd reoli gyda'r Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA). Mae gan Siân chwe blynedd ar hugain o brofiad o weithio yn y sector gofal plant a hanes profedig o weithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol. Mae Siân wedi bod yn gysylltiedig â datblygu polisïau a mentrau cenedlaethol a lleol dros y blynyddoedd; gan gynnwys datblygu'r Cyfnod Sylfaen, Strategaeth Gofal Plant, Cymorth, Cychwyn Cadarn a datblygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Gymru.

Karen Graham Mae Karen yn Athro Astudiaethau Plentynodod a Theuluoedd ym Mhrifysgol Glyndwr ac mae'n Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer y Plentyn, y Teulu a Chymdeithas. Mae gan Karen brofiad fel Cyfarwyddwr darpariaeth gofal dydd sydd wedi ennill sawl gwobr, darpariaeth dysgu yn y gwaith ac addysg yn yr ysgol. Mae ei phrofiad addysgu yn cynnwys y blynyddoedd cynnar a Champau Allweddol 1 a 2 yn ogystal â'i rolau fel Dirprwy Bennaeth ac Athro Ymgynghorol. Mae gan Karen brofiad helaeth o weithio gydag awdurdodau lleol, cynghorau sgiliau sector, grwpiau rhanddeiliaid plant a theuluoedd a gweithgorau rhyngwladol ar chwarae plant a hawliau plant. Mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Gweinidogol Sir Benfro a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru yn 2011 ac mae'n aelod o Fwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar hyn o bryd, wedi ei gyd-gadeirio gan y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog ar gyfer Tlodi.

Wendy Hawkins Gwnaeth Wendy hyfforddi yn wreiddiol fel athrawes ysgol uwchradd a bu'n addysgu mewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddi gryn brofiad ym maes chwarae plant ac mae wedi cynrychioli Cymru ar y Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol (NEC) ar gyfer Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol (PPA) Cymru a Lloegr. Bu Wendy yn Gynghorydd Cenedlaethol yn arwain PPA Cymru cyn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu grŵp annibynnol i Gymru. Yn 2002 daeth yn Gyfarwyddwr Clybiau Plant Cymru ac mae wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r sefydliadau ledled Cymru.

Mae **Lynne Hill** wedi gweithio i sefydliad Plant yng Nghymru ers 12 mlynedd, yn dilyn gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol a gwasanaethau plant. Mae Lynne yn arwain gwaith y sefydliadau ar y blynyddoedd cynnar a gofal plant, darpariaeth i blant ag anableddau, gofalwyr ifanc, rhianta a chymorth teuluol a gwasanaethau gwybodaeth. Mae Lynne wedi arwain nifer o brosiectau yn Plant yng Nghymru, gan gynnwys datblygu Cefnogi Cynnar yng Nghymru, gwaith a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop fel rhan o brosiect Cyrraedd y Nod, a gwaith ar gardiau adnabod i ofalwyr ifanc a chanllaw gwybodaeth i Ofalwyr sy'n Berthnasau.

Helen Mary Jones yw Prif Weithredwr Youth Cymru, sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac mae hefyd yn ymgynghorydd materion cyhoeddus. Bu'n aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru am 12 mlynedd. Rhwng

2007 a 2011 bu'n cadeirio'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, gan gyflwyno ffyrdd newydd arloesol o gynnwys plant a phobl ifanc ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor. Cyn ei hethol yn 1999 bu Helen Mary yn gweithio mewn amryw o rolau ieuenctid a chymunedol, a hi oedd Dirprwy Gyfarwyddwr y Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru. Yn 2011 fe'i penodwyd gan Weinidogion Cymru i'r Bwrdd a anfonwyd i helpu a herio Cyngor Sir Penfro yn dilyn cyfres o adroddiadau yn amlygu methiannau mewn arfer diogelu ym maes addysg.

Hywel Jones Hywel yw Prif Weithredwr Mudiad Meithrin ac mae'n frodor o Ynys Môn. Fe'i penodwyd yn Bennaeth Addysg Gorfforol i Fechgyn yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth yn 1974 ac yna symudodd yn 1982 i ymgymryd â swydd Pennaeth Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd yng Nglan-llyn, y Bala. Yn ystod ei gyfnod yno, bu'n goruchwylio'r gwaith helaeth o foderneiddio'r ganolfan, gan sicrhau cyllid ar gyfer llety ychwanegol, neuadd fwyta newydd, neuadd chwaraeon, a chanolfan bowlio deg, gan dreblu'r incwm, a nifer yr ymwelwyr â'r ganolfan. Mae wedi bod yn ei swydd bresennol ers 1993, ac unwaith eto, bu'n gyfrifol am dwf a datblygiad y sefydliad gofal plant mwyaf yng Nghymru erbyn hyn. Sefydlodd y cwmni hyfforddi adnabyddus, Cam wrth Gam, a sicrhaodd gyllid i adeiladu dwy ganolfan integredig fawr (yr unig sefydliad gwirfoddol i wneud hynny), a phedwar cyfadeilad mawr o swyddfeydd. Ar adegau amrywiol, mae Hywel wedi bod yn aelod o Banel Addysg BBC Cymru, pwyllgor gweithredol Plant yng Nghymru, Grŵp Monitro'r Cyfnod Sylfaen, a'r Gweithgor Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'n aelod o Bartneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a gadeirir ar y cyd gan ddau Weinidog, Grŵp Partneriaeth y Gymraeg, a gadeirir bellach gan y Prif Weinidog.

Dyfarnwyd yr OBE iddo yn 2006 am ei wasanaethau i'r Iaith Gymraeg ac i Addysg, ac fe'i gwnaed yn Gymrawd Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin yn 2012, am ei wasanaethau i Ofal Plant a'r Iaith Gymraeg. Mae hefyd yn un o Dderwyddon Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Mae **Rita Jones** newydd ymddeol o'i swydd fel Dirprwy Brif Weithredwr Mudiad Meithrin. Bu'n gweithio i'r sefydliad am 30 mlynedd, a hi oedd yn bennaf cyfrifol am hyfforddi a sicrhau ansawdd ym mhob agwedd ar waith a gweithgareddau'r sefydliad

a'i aelod-leoliadau. Ei chyfrifoldeb hi oedd datblygu a gweithredu cynllun sicrwydd ansawdd Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae wedi cyfrannu at ddatblygu a rheoli nifer o asiantaethau cenedlaethol ym maes anabledd a gwasanaethau plant yng Nghymru gan gynnwys aelodaeth o Fwrdd Rheoli Anabledd Dysgu Cymru, Bwrdd Rheoli Plant yng Nghymru a Bwrdd Rheoli Clybiau Plant Cymru. Mae hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru gan gynnwys unedau arbenigol ar fethodoleg trochi. Mae bellach yn ymgynghorydd annibynnol sy'n helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiâu ac adnoddau newydd ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

Mae **Jennifer Lenczner** yn athrawes gymwysedig ac mae ganddi fwy na 30 mlynedd o brofiad addysgu ym meysydd y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac addysg oedolion. Ers 13 o flynyddoedd, mae wedi arbenigo ym maes y blynyddoedd cynnar a'r Cyfnod Sylfaen. Ers ymuno â Thîm Cyfnod Sylfaen y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yn 2012 mae Jennifer wedi darparu hyfforddiant, cyngor a chanllawiau i ysgolion a lleoliadau yng Nghaerffili a Blaenau Gwent. Yn 2008 fe'i penodwyd yn Athro Ymgynghorol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, gan ddarparu hyfforddiant, adnoddau a chymorth parhaus a'u harwain drwy arolygiadau llwyddiannus Estyn. Yn y gorffennol bu Jennifer yn aelod gweithredol o Dîm Strategaeth Llythrennedd a Thîm Cyfnod Sylfaen Cyngor Sir Caerdydd. Cydlynodd nifer o fentrau yng Nghaerdydd hefyd gan gynnwys: gwasanaeth llythrennedd a rhifedd allgymorth i oedolion ym maes Sgiliau Sylfaenol; Rhaglen Pontio Springboard - a oedd yn ceisio codi safonau sgiliau llythrennedd a rhifedd rhwng addysg gynradd ac uwchradd a'r rhaglen Iaith a Chwarae Sgiliau Sylfaenol. Mae ganddi brofiad helaeth o weithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o asiantaethau i ddatblygu gwaith partneriaeth.

Claire Protheroe yw Rheolwr Gwasanaethau Uniongyrchol PACEY Cymru (Y Gymdeithas Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Broffesiynol). Mae Claire yn arwain gwaith PACEY yng Nghymru, gan ddatblygu a chynnal cydberthnasau strategol â phartneriaid allweddol a darparu arweinyddiaeth a chynlluniau busnes ar gyfer y sefydliad yng Nghymru mewn sawl maes allweddol. Mae gan Claire flynyddoedd lawer o brofiad ym maes gofal plant a blynyddoedd cynnar ac mae wedi dal nifer o

swyddi yn y sector, gan gynnwys gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig, felly mae'n deall y problemau sy'n wynebu ymarferwyr yn y maes. Mae Claire wedi cynrychioli PACEY Cymru mewn sawl grŵp arbenigol a gweithgor ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Gofal Cymru, y Sector Gofal Plant a Chwarae, Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar a hefyd waith partneriaeth â sefydliadau gofal plant eraill i ddatblygu adnoddau ac adroddiadau, er enghraifft 'Fun Food and Active Play for Tiny Tots' ac adroddiad ymchwil i 'Inclusion in the Early Years'. Mae gan Claire radd dosbarth 1^{af} BA (Anrh) ym maes Addysg y Blynyddoedd Cynnar.

Mae **Vicki Neale** wedi gweithio i Gyngor Gofal Cymru ers 2007 yn arbenigo yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Yn ystod ei hamser yng Nghyngor Gofal Cymru, mae Vicki yn ddiweddar wedi datblygu rhestr cymwysterau y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Fframwaith DPP Dechrau'n Deg. Mae Vicki hefyd wedi datblygu a chyhoeddi nifer o gyhoeddiadau i ategu a chodi safonau yn Sector y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac mae'r rhain yn cynnwys: 'Supervising Well' a 'Your First Year as an Early Years and Childcare Manager'.

Mae **Fiona Santos** wedi bod yn gweithio yn y sector gofal plant ers dros 20 mlynedd. Mae ei phrofiad yn cynnwys amrywiaeth o rolau ymarferydd gan gynnwys bod yn nani yn America, rheoli meithrinfa ddydd yn America a Chymru a gweithio ar Fws Chwarae yn ardal Caerdydd. Ers 14 blynedd mae wedi ymgymryd â rôl arwain strategol yn gweithio fel y Cydlynnydd Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r swydd hon wedi esblygu gyda'r mentrau rhanbarthol, lleol a chenedlaethol amrywiol gan gynnwys cyflwyno Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP's) a llawer o Raglenni Gofal Plant Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen. Bu Fiona hefyd yn aelod cychwynnol, ac mae'n gyd-gadeirydd grŵp AWARE (Cymdeithas Cynrychiolwyr EYDCP's Cymru Gyfan), sy'n rhwydwaith a chorff ymgynghorol.

Sandra Welsby Mae Sandra Welsby yn arwain Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru. Mae NDNA Cymru yn cynnig cymorth i 446 o feithrinfeydd dydd, 18,700 o blant a gweithlu o tua 6,000. Mae NDNA Cymru yn

helpu i ddatblygu a gweithredu agenda polisi Llywodraeth Cymru ac ymrwymadau i ofal plant a chwarae drwy gefnogi gofal plant hygyrch, fforddiadwy o ansawdd i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd ledled Cymru. Sandra yw Rheolwr Cenedlaethol (Cymru) sy'n cynrychioli'r sector mewn cyfarfodydd strategol â Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Cyngor Gofal Cymru, ac asiantaethau amrywiol eraill sy'n cefnogi ac yn mynd i'r afael â materion y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Ers ymuno ag NDNA ym mis Ebrill 2005, mae Sandra wedi chwarae rhan annatod yn y gwaith o ddatblygu seilwaith NDNA Cymru, ac mae ei phrofiad a'i gwybodaeth am y sector yn galluogi NDNA Cymru i gynnig cymorth a chydabyddiaeth effeithiol i sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant ledled Cymru. Mae gan Sandra brofiad helaeth o weithio ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, polisi y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gwaith amlasiantaeth, sgiliau rheoli cyllid a phrosiectau. Yn y gorffennol mae Sandra wedi gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru.

Atodiad 5: Rhestr o ymgynghoriadau

- Grŵp Ymgynghorwyr Cyfnod Sylfaen Cymru Gyfan (AWFPA)
- Rhwydwaith AWARE
- Cyngor Gofal Cymru
- Uned Strategaeth Gofal Plant Caerdydd
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant.
- Staff Clybiau Plant Cymru
- Cydweithwyr sy'n gweithio ym maes addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe
- AGGCC
- Rhwydwaith Gweithlu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Estyn
- Estyn - Gweithgor
- Rhwydwaith FIS
- Rhwydwaith Dechrau'n Deg
- Arweinwyr System Cyfnod Sylfaen o fewn consortiwm Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Athrawon Ymgynghorol Awdurdodau Lleol
- Aelodaeth o NDNA
- Pwyllgor Polisi NDNA Cymru
- PACEY Cymru
- Gweithwyr proffesiynol ym maes rhianta
- Chwarae Cymru
- Staff yn Llywodraeth Cymru
- Staff y Brifysgol
- PPA Cymru - staff a'r bwrdd
- Aelodaeth o PPA Cymru mewn fforymau rhanbarthol
- CGGC

Yn ogystal, cynhaliwyd tri chyfarfod ymgynghori agored (Aberystwyth, Caerdydd a

Wrecsam)

Yn ystod yr adolygiad hwn ymgynghorwyd â thros 3000 o randdeiliaid ar draws grwpiau sector mewn lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ledled Cymru. Gwnaeth rhanddeiliaid (ac eithrio Cyngor Gofal Cymru) a oedd yn cynrychioli grwpiau o aelodau gynrychioli dros 8400 o aelodau.

Nodiadau

- ¹ Llywodraeth Cymru, 2013. Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Caerdydd: Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru.
- ² OECD (2006). Starting strong II: Early childhood education and care (Cyf. 2). OECD Publishing.
- ³ Cynllun Gweithredu Gofal Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002).
- ⁴ Mae llawer o'r argymhellion yn debyg i'r rheini a wnaed yn yr Adolygiad o'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Dydd a Gwarchod Plant 2009 a ddeilliodd o ymgynghoriad eang, na weithredwyd eu hargymhellion ar y pryd, er mawr siom i'r sector.
- ⁵ Llywodraeth Cymru, 2013
- ⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd (2011) European Commission Communication: Providing all our children with the best start for the world of tomorrow [COM(2011)66] http://ec.europa.eu/education/school-education/doc2266_en.htm
- ⁷ Penn H et al. (2004) What is the impact of out-of-home integrated care and education settings on children aged 0-6 and their parents? Research Evidence in Education Library. Llundain: Canolfan EPPI, Uned Ymchwil Gymdeithasol, y Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain.
- ⁸ Naumann, I. McLean, C., Koslowski, A., Tisdall, K., Lloyd, E. (2013) Early Childhood Education And Care Provision: International Review Of Policy, Delivery And Funding. Llywodraeth yr Alban. Caeredin.
- ⁹ Kaga, Bennett, Moss (2010) Caring and Learning Together: Study on the integration of ECCE within education. UNESCO.
- ¹⁰ Y Comisiwn Ewropeaidd (2007)
- ¹¹ Rhys, M., Waldron, S. Taylor C., Power, S. (2014) Policy vs. implementation in the Foundation Phase. Papur Cynhadledd. Cynhadledd WISERD 2014
- ¹² e.e. Sylva et al, 2004
- ¹³ Parker, I. (2013) Early Developments: Bridging the gap between evidence and policy in Early-Years Education. IPPR, Llundain
- ¹⁴ Parker, I. (2013) Ibid
- ¹⁵ Mathers S, Singler R and Karemaker A (2012) Improving quality in the early years: a comparison of perspectives and measures, London: Yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd
- ¹⁶ OECD (2001). Starting strong: Early childhood education and care (Vol. 1). OECD Publishing.
- ¹⁷ Llywodraeth Cymru. Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen. (2012)
- ¹⁸ Y Ganolfan ar y Plentyn sy'n Datblygu ym Mhrifysgol Harvard [CDC] (2007) A science-based framework for early childhood policy, Caergrawnt, MA: CDC. http://developingchild.harvard.edu/index.php/download_file/-/view/63/
- ¹⁹ Sylva K, Melhuish E, Sammons P, Siraj-Blatchford I a Taggart B (2004) 'The Final Report: Effective Pre-School Education', prosiect The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Papur Technegol 12, Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau/Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain
- ²⁰ Havnes T a Mogstad M (2009) 'No Child Left Behind: Universal Childcare and Children's long-run outcomes', Statistics Norway, Yr Adran Ymchwil, Papur Trafod Rhif. 582, Mai 2009
- ²¹ Sylva K, Melhuish E, Sammons P, Siraj-Blatchford I a Taggart B (2004) 'Effective provision of pre-school education: Final report', Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau
- ²² Hopkins R, Stokes L a Wilkinson D (2010) Quality, outcomes and costs in Early Years education: Report to the Office for National Statistics, Llundain: Y Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Cenedlaethol

- ²³ Sylva K, Siraj-Blatchford I, Taggart B, Sammons P, Melhuish E, Elliot K a Totsika V (2006) 'Capturing quality in early childhood through Early Childhood Environmental Rating Scales', *Early Childhood Research Quarterly* 21(1): 76–92. ISSN 0885-2006
- ²⁴ Gan gynnwys gofal plant y tu allan i oriau ysgol, gan fodloni o leiaf y gofyniad cyfredol i reoleiddio gwasanaethau i blant hyd at 8 oed.
- ²⁵ Gan gynnwys gofal plant y tu allan i oriau ysgol lle mae athroniaeth wahanol ar waith sy'n parchu bod angen rhyddid ar blant i chwarae a gwneud dewisiadau heb gael eu hasesu yn erbyn deilliannau addysgol.
- ²⁶ Mae hanes arolygiadau gofal yn dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif, a'u bwriad oedd diogelu plant mewn sefydliadau gofal a'u diogelu rhag 'ffermwyr babanod' drwg-enwog. Roedd Deddf Diogelu Bywyd Babanod 1872 yn rhagflaenydd i amryw Ddeddfau Plant Senedd y DU a ategwyd yn y pen draw mewn Cymru ddatganoledig gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010). Awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am arolygiadau yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, gyda chyfrifoldeb cenedlaethol yn cael ei roi i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar y pryd cyn uno arolygiadau gofal cymdeithasol, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol i greu AGGCC yn 2002.
- ²⁷ Bennett, J., (2008) *Early Childhood Education and Care Systems in the OECD Countries: the Issue of Tradition and Governance*. OECD
- ²⁸ Kaga, Bennett, Moss (2010) *Caring and Learning Together: Study on the integration of ECCE within education*. UNESCO.
- ²⁹ Parker, I. (2013) *Ibid.*
- ³⁰ OECD (Gwasanaeth ar-lein). *Starting strong II: Early childhood education and care*. Cyf. 2. OECD Publishing, 2006.
- ³¹ Rhoddir manylion cymwysterau yn rhestr Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Derbyniol ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru neu Fframwaith Cymwysterau Integredig Skills Active ar gyfer Gwaith Chwarae.
- ³² Llywodraeth Cymru. *Canllawiau ar Ofal Plant Dechrau'n Deg*. 2013
- ³³ Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r gofynion cymhwysio presennol i gymorthyddion sy'n gweithio mewn ysgolion ar lefelau gwahanol yn yr ystafell ddosbarth ac yn datblygu opsiynau ar gyfer gofynion cymhwysio ar gyfer y dyfodol erbyn mis Hydref 2013 - gwneir hyn mewn partneriaeth ag undebau a chyflogwyr.
- ³⁴ Educational Institute of Scotland, (2010) *Nursery Education Research Review Report*, www.eis.org.uk/images/nursery%20research%20review%20report%20291010.pdf
- ³⁵ Sylva K, Melhuish E, Sammons P, Siraj-Blatchford I a Taggart B (2004) 'Effective provision of pre-school education: Final report', Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau
- ³⁶ Mathers, S. et al (2011) *Evaluation of the graduate leader fund final report*. Adroddiad Ymchwil gan yr Adran Addysg DFE-RR144
- ³⁷ Nododd yr ymchwil nad oedd staff sy'n meddu ar gymwysterau uwch yn cael effaith sylweddol ar blant iau, ond y gellid egluro hyn gan y ffaith bod staff sy'n meddu ar gymwysterau uchel yn treulio pedair gwaith yn fwy o amser gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar na babanod a phlant bach. Nid yw'r canlyniad felly o reidrwydd yn ystyrion: efallai na fydd yr effaith ar y plentyn iau yn ymddangos yn sylweddol mewn astudiaethau am nad yw staff cymwysedig iawn yn rhyngweithio â'r plant hyn.
- ³⁸ Dallimore, D. (2012) *Y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru: 2012*. Cyngor Gofal Cymru.
- ³⁹ *Ac eithrio gwarchodwyr plant*
- ⁴⁰ Nutbrown, C. (2012) *Foundations for Quality. The independent review of early education and childcare qualifications*. Yr Adran Addysg, Llundain
- ⁴¹ e.e. Awstria, Gwlad Belg, yr Eidal, Y Ffindir, Hwngari, Sweden a'r Weriniaeth Tsiec
- ⁴² Nutbrown, C. (2012) *Ibid.*
- ⁴³ OECD (2012). *Starting strong III: Early childhood education and care (Vol. 3)*. OECD Publishing.

⁴⁴ Mae strwythur modiwlau'r diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn galluogi ymarferwyr i ennill cymhwyster Lefel 5 (addysgol) seiliedig ar ymarfer a chymhwyster arwain Lefel 5 gyda 12 o unedau ychwanegol.

⁴⁵ Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o adnoddau asesu plant yn y Blynyddoedd Cynnar a ddefnyddir yng Nghymru

⁴⁶ Llywodraeth Cymru (2013) National Evaluation of Flying Start: Area case study synthesis report

1.1 ⁴⁷ Mae strwythur modiwlau y cymhwyster Dysgu a Datblygu Gofal Plant yn caniatáu i ymarferwyr ennill cymhwyster Lefel 5 ar sail ymarfer (pedagogiaidd) a chymhwyster arweinyddiaeth Lefel 5 drwy ychwanegu 12 uned arall.